



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS  
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

# ASESIAD LLESIANT



Y BENNOD ECONOMAIDD

# CONTENTS

<b>CYFLWYNIAD</b>	<b>1</b>
<b>YR EFFAITH AR DEULUOEDD AC AELWYDYDD</b>	<b>2</b>
<b>RHWYSTRAU YCHWANEGOL I WAITH</b>	<b>3</b>
<b>ADRODDIAD TUEDDIADAU SGILIAU I'R DYFODOL</b>	<b>4</b>
<b>YR ECONOMI LEOL</b>	<b>7</b>
<b>ALLBWN ECONOMAIDD</b>	<b>9</b>
<b>SWYDDI: TWF A DWYSEDD</b>	<b>10</b>
<b>CYNHYRCHEDD</b>	<b>12</b>
<b>GWEITHGAREDD ECONOMAIDD</b>	<b>13</b>
<b>MARCHNAD LAFUR / INCWM</b>	<b>14</b>
<b>POBLOGAETH</b>	<b>14</b>
<b>CYFRIF HAWLWYR: CYFRADDAU CYFFREDINOL HAWLWYR</b>	<b>15</b>
<b>LEFELAU TÂL/CYFLOG</b>	<b>17</b>
<b>MYNEGAI AMDDIFAEDD LLUOSOG CYMRU 2019</b>	<b>19</b>
<b>STOC BUSNES/SECTORAU/CYFLOGAETH</b>	<b>20</b>
<b>ADDYSG/CYMWYSTERAU/SGILIAU</b>	<b>22</b>
<b>PRESENOLDEB</b>	<b>24</b>
<b>POBL IFANC NAD YDYNT MEWN ADDYSG, CYFLOGAETH NA HYFFORDDIANT (NEET)</b>	<b>25</b>
<b>CYMWYSTERAU'R GWEITHLU</b>	<b>26</b>
<b>PRENTISIAETHAU</b>	<b>27</b>
<b>GOFAL PLANT YN CNPT</b>	<b>27</b>
<b>CYFLEOEDD A HERIAU ECONOMAIDD EHangach</b>	<b>29</b>
<b>NEWID YN YR HINSAWDD/SERO NET/DATGARBONEIDDIO</b>	<b>29</b>
<b>ECONOMI GYLCHOL A COVID 19</b>	<b>32</b>
<b>CYSYLLTEDD</b>	<b>33</b>
<b>CYSYLLTEDD DIGIDOL A SGILIAU</b>	<b>34</b>
<b>EIDDO MASNACHOL</b>	<b>35</b>
<b>SAFLEOEDD STRATEGOL</b>	<b>36</b>
<b>BUDDSODDI YNG Nghanol TREFI</b>	<b>36</b>
<b>PRYNU'N LLEOL</b>	<b>37</b>
<b>ANGHYDRADDOLDEB AC INCWM ISEL</b>	<b>37</b>
<b>LLESIAnt ECONOMAIDD YN CNPT</b>	<b>38</b>
<b>GWYBODAETH GEFNOGOL</b>	<b>39</b>
<b>ATODIAD 1: DADANSODDIAD SWOT</b>	<b>39</b>

## CYFLWYNIAD



***Yn 2018, cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ei Gynllun Llesiant pum mlynedd, “Y Castell-nedd Port Talbot a Garem”. Fe’i datblygwyd gan bartneriaid allweddol, ac roedd yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot fel “lle bywiog a iach lle mae pobl yn cael cyfle cyfartal i symud ymlaen mewn bywyd – rhywle y bydd pobl yn dymuno byw, dysgu, gweithio a buddsoddi ynddo, ac ymweld ag ef am lawer o genedlaethau i ddod”.***

Mae’r Cynllun hwn yn awr yn cael ei adolygu yn unol â’r cysyniad o Lesiant (fel y diffiniwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015) sydd yn eang ac yn gyfannol ac yn ymdrechu i gyflawni’r canlynol:

"Poblogaeth fedrus a dysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, fel bod pobl yn gallu manteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith teilwng."

- Bydd y Bennod Economaidd hon yn bwydo i’r adolygiad cyfredol o Gynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot ac mae’n cynrychioli cyfle i amlygu’r gwerth “economaidd” ychwanegol y mae modd ei gyflwyno trwy weithio’n arloesol ac ar y cyd fel partneriaid i fwyafu cyfraniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.
- At ddibenion y diweddariad hwn, diffiniwyd llesiant economaidd fel “cynhyrchu cyfoeth mewn modd cynaliadwy, yn gyfrwng i bobl ar draws Castell-nedd Port Talbot fedru cael mynediad at ffyniant trwy addysg, sgiliau, gwaith a menter, a’n cyfleoedd i ddiogelu a gwella ein hasedau naturiol ochr yn ochr ag optimeiddio rhagolygon economaidd”.

### O ganlyniad, rhannwyd y Bennod Economaidd hon i’r is-themâu canlynol:

#### Yr Economi Leol/Economic Output

- Allbwn Economaidd
- Swyddi a Dwysedd
- Tueddiadau a Gofynion Galwedigaethol yn y Dyfodol
- Gweithgaredd Economaidd

#### Marchnad Lafur/Incwm Claimant Count

- Poblogaeth
- Nifer yr Hawlwyr
- Lefelau Tâl/Cyflog
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (IMD)
- Penawdau Stoc Busnes/Sectorau/Cyflogaeth
- Addysg/Cymwysterau’r Gweithlu/Sgiliau/Gofal Plant
- Cyfleoedd/Heriau Economaidd Ehangach

## YR EFFAITH AR DEULUOEDD AC AELWYDYDD



*Ers i'r Bennod Economaidd gael ei hadolygu a'i diweddarau yn 2021, mae costau byw wedi bod yn cynyddu ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r hyn y cyfeirir ato'n awr fel 'argyfwng costau byw' yn creu gostyngiad yn incwm gwariadwy 'gwirioneddol' aelwydydd, a achosir yn bennaf gan gynydd mewn treth a chwyddiant uchel sy'n fwy na'r cynnydd mewn cyflogau a budd-daliadau a chynnydd byd-eang yng nghostau tanwydd a bwyd.*

Eleni, mae chwyddiant eisoes yn uwch nag ers 30 mlynedd, a chan fod Banc Lloegr yn rhagweld cynnydd pellach erbyn diwedd y flwyddyn, mae cyllidebau aelwydydd yn debygol o barhau i gael eu gwasgu.

Ar ben hynny, ni fu'r cynnydd mewn cyflogau yn ddigonol i gadw i fyny â chwyddiant. Mae Banc Lloegr yn rhagfynegi twf o 4.75% yn 2022, ond mae disgwyl i chwyddiant godi mwy nag 8%. Bydd effaith ddifrifol hefyd ar aelwydydd sy'n derbyn rhan fawr o'u hincwm o fudd-daliadau oedran gwaith neu bensiwn y wladwriaeth, gan fod y llywodraeth yn seilio'r cynnydd blynyddol ar gyfraddau chwyddiant y flwyddyn flaenorol. Er bod budd-daliadau a phensiwn y wladwriaeth wedi codi ym mis Ebrill 2022, nid oedd hynny'n cyfateb i'r cyfraddau chwyddiant cyfredol, gan ei fod yn cynrychioli cynnydd o 3.1% yn unig. Gan fod disgwyl i gyfraddau chwyddiant godi mwy nag 8% erbyn diwedd y flwyddyn, bydd hynny'n golygu gostyngiad sylweddol mewn incwm "gwirioneddol" llawer o aelwydydd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Bydd mesurau diweddar a gyflwynwyd gan y llywodraeth i helpu i amddiffyn aelwydydd rhag gostyngiadau gwirioneddol mewn incwm yn helpu i ryw raddau, ond mae disgwyl mai aelwydydd ar y cyflog byw cenedlaethol; y rhai sy'n hawlio credyd cynhwysol a budd-daliadau eraill, sydd eto'n cynrychioli nifer sylweddol o aelwydydd yng Nghastell-nedd Port Talbot, fydd yn dioddef yr ergyd fwyaf. Er enghraifft, amcangyfrifodd y Sefydliad Astudiaethau Ariannol (Institute for Fiscal Studies) y byddai cyfradd chwyddiant yn 10.9% eleni yn achos y 10% o aelwydydd tlotaf (ar sail y gyfran o gyllidebau sy'n cael eu gwario ar wahanol grwpiau eang o gynnyrch). Mewn cyferbyniad, y 10% cyfoethocaf o aelwydydd fyddai'n profi'r gyfradd isaf o chwyddiant, sef 7.9%. Y rheswm am hynny yw bod costau ynni – prif sbardun chwyddiant yn ddiweddar – yn gyfran uwch o gyllideb aelwyd yn achos aelwydydd incwm isel.

Mae llawer o grwpiau sy'n gweithio yn erbyn tlodi bwyd hefyd yn dadlau bod y sefyllfa i aelwydydd tlotach yn waeth fyth oherwydd bod pris yr eitemau bwyd rhataf y mae'r aelwydydd hyn yn dibynnu arnynt wedi cynyddu ymhellach neu, mewn rhai achosion, nid yw'r cynnyrch rhataf ar gael yn y siopau.

Gellid dadlau, hyd yn oed petai cyfraddau chwyddiant yn debyg, y gallai effaith chwyddiant ar aelwydydd tlotach fod yn fwy beth bynnag. Dylai aelwyd gyfoethocach fedru cwmpasu costau ynni uwch, er enghraifft trwy leihau cynilion, ond ni fydd yr opsiwn hwnnw ar gael i lawer o aelwydydd incwm isel.

Mae tlodi yn broblem gynyddol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn 2020 amcangyfrifwyd bod rhyw 21,000 o oedolion oedran gwaith a 7,500 o blant yn byw ar incwm o lai na 60% o'r canolrif.

Mae tlodi'n dal yn amlwg yn y rhan fwyaf o rannau o Gastell-nedd Port Talbot, ac mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod o leiaf 15% o'r plant yn byw mewn tlodi ym mhob un o wardiau'r sir; mae 7,600 o blant yn byw ar aelwydydd incwm isel ac mae mwy na 5100 o blant yn byw o dan y trothwy tlodi.

Wrth i gostau byw barhau i godi, yr her yw gwella safonau byw i sicrhau nad yw'r rhai sydd mewn cyflogaeth yn waeth eu byd na phetaen nhw ar fudd-daliadau. Mae galw cynyddol am gefnogaeth ychwanegol o ran hawliau lles, cyngor ar ddyledion, cymorth ariannol a chynhwysiad digidol i gael mynediad i wasanaethau ar-lein. Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn gweithio gyda chymunedau a phartneriaid gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot i ymdrin â thlodi bwyd a thanwydd a chefnogi'r dinasyddion hynny mae argyfwng costau byw yn effeithio arnyn nhw.

## RHWYSTRAU YCHWANEGOL I WAITH



Yn dilyn y pandemig, bu cynnydd yn nifer yr unigolion economaidd segur sydd wedi colli hyder ac yn cael mwy o anhawster cael mynediad i gefnogaeth. Her allweddol yw'r angen am ailsefydlu'r unigolion hyn a'u gwneud yn fwy hyderus, er mwyn cynyddu eu lefelau cymhelliant a'u helpu i chwilio am gyflogaeth. Mae'r her hon yn fwy aciwt fyth oherwydd yr oedi wrth gael mynediad i wasanaethau cefnogi arbenigol, gan gynnwys cwnsela a chymorth therapi.

Mae nifer o heriau eraill hefyd ynghylch argaeledd gofal plant a thrafnidiaeth hyblyg, fforddiadwy o safon, yn arbennig yn ein cymunedau mwy pellennig, ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain.

## ADRODDIAD TUEDDIADAU SGILIAU I'R DYFODOL



Cydnabyddir yn y Bennod Economaidd fod digwyddiadau arwyddocaol, fel y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a phandemig COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol ar y gymuned fusnes.

Gyda llawer o bobl naill ai'n colli eu swyddi neu'n gorfod gweithio mewn sectorau sy'n parhau i wynebu ansicrwydd, mae anghydraddoldeb yn y boblogaeth wedi dyfnhau, ac mae hynny'n cael effaith anghymesur ar rai o'r bobl fwyaf bregus yn y gymdeithas.

O ran adferiad economaidd, mae'r pandemig yn dal yn ffactor allweddol sy'n amharu, ac mae'n eglur bod ei effaith ar dueddiadau tymor canolig a hir i'r dyfodol yn dal yn ansicr, ond rydym ni yn gwybod bod tueddiadau i'r dyfodol yn y meysydd allweddol canlynol yn debygol o fod yn sbardunau allweddol o ran sicrhau llwyddiant economaidd CNPT wrth symud ymlaen:

- **Pobl a Phoblogaeth:** Adlewyrchir strwythurau poblogaeth newidiol, a datblygiadau yn sut mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn teithio yn y tueddiadau at boblogaeth sy'n heneiddio a thueddiadau iechyd cysylltiedig, newid yn yr angen am dai, a phatrymau gwaith a bywyd sy'n newid. Mae disgwyl i'r boblogaeth fyd-eang barhau i dyfu, gyda'r rhagamcanion yn cyfeirio at gynydd o 2 biliwn o bobl yn ystod y 30 mlynedd nesaf, fel bod poblogaeth y byd yn 9.7 biliwn erbyn 2050.

Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu bron 4% hyd at 2043. Disgwylir gweld rhai o'r achosion mwyaf o gynydd yn y boblogaeth yn Ne Cymru, a rhagwelir y bydd Castell-nedd Port Talbot yn gweld cynnydd o 2.8% a phoblogaeth ddisgwylidig o 146,840 erbyn 2028, fydd yn golygu mai hi yw'r 9fed ardal awdurdod lleol fwyaf yng Nghymru.

Mae patrymau mudo hefyd yn debygol o fod yn sbardun allweddol ar gyfer newid yn y boblogaeth yng Nghymru. Ers 2019, bu newid mewn patrymau mudo, sydd wedi arwain at gynydd yn nifer net yr ymfudwyr. Roedd nifer net yr ymfudwyr o'r UE i Gymru wedi bod yn gostwng, ond mae bellach wedi sefydlogi ar lefel sy'n llawer is nag yn y blynyddoedd a arweiniodd at refferendwm yr UE. Mae ymfudo o wledydd tu allan i'r UE wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2013, ac yn y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2020 gwelwyd rhai o'r lefelau uchaf o ymfudo i'r Deyrnas Unedig o wledydd heblaw'r UE ers dechrau cadw cofnod.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth oedran gwaith yn lleihau ym mhob awdurdod lleol heblaw'r ardaloedd sy'n drefol yn bennaf megis Casnewydd, Caerdydd ac Abertawe, a rhagwelir y bydd y ganran uchaf o newidiadau ymhlith y bobl 16-64 oed mewn ardaloedd sy'n wledig yn bennaf.

Yn achos pobl 65 oed a throsodd, rhagwelir cynnydd ym mhob ardal awdurdod lleol. Un canlyniad i'r cynnydd hwn yw'r amlygrwydd a ragwelir o ran cyflyrau cronig a morbidrwydd a chynnydd yng nghyfraddau dementia.

- **Mae anghydraddoldeb** yn gyrru tueddiadau sy'n effeithio ar bob rhan o gymdeithas. Ar y cyd â'r economi, mae anghydraddoldeb cymdeithasol yn sylfaen ar gyfer tueddiadau yn natblygiad swyddi, sgiliau a'r farchnad lafur yng Nghymru. Er bod gan newidiadau yn y meysydd hyn botensial i sbarduno datblygiad ar gyfer pobl ac ardaloedd penodol, ni phrofir y tueddiadau hyn yn gyfartal. Er enghraifft, gall lefel uchel o anghydraddoldeb neu lefel gynyddol gael effaith negyddol ar dwf economaidd a chadw pobl yn gaeth mewn cylchoedd o dlodi. Yn yr un modd, gall canlyniadau addysgol gwaelach arwain at ganlyniadau cyflogaeth gwaeth yn ddiweddarach mewn bywyd, ac mae modd i'r anfanteision hynny gael eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol, a fydd o ganlyniad yn wynebu'r un rhwystrau. Cysylltwyd byw mewn tlodi hefyd â chanlyniadau iechyd a llesiant gwaelach, a gall y rhain, os na roddir sylw iddynt, waethygu anghydraddoldeb sydd eisoes yn bodoli.

Yng Nghymru, er bod y tueddiad cyffredinol mewn incwm yn cyfeirio at rywfaint o ostyngiad mewn lefelau tlodi, a bod cyfraddau tlodi plant yng Nghymru wedi bod yn gyffredinol debyg i'r Deyrnas Unedig, mae tlodi ymhlith oedolion oedran gwaith a phensiynwyr wedi bod yn uwch yn gyson. Mae hynny'n sicr yn wir yng Nghastell-nedd Port Talbot, ynghyd â dosbarthiad anghyfartal o dlodi ar draws pobl ag anabledd a phobl Ddu, Asiaidd a rhai sy'n perthyn i leiafrifoedd ethnig.

Fel sy'n wir yng Nghymru, mae diweithdra wedi bod yn gostwng yng Nghastell-nedd Port Talbot ers tua 2013 yn dilyn cyfnod disymud. Er y gall cyflogaeth gynyddol ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl leol wella'u llesiant economaidd, mae cyfraddau uchel o dlodi mewn gwaith yn parhau i'w gweld yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'n amlwg felly nad yw cynyddu cyflogaeth o reidrwydd yn cyfateb i wella canlyniadau economaidd, yn arbennig os yw ansawdd cyflogaeth yn wael, ac mae heriau eraill yn bodoli.

O'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, mae 19 wedi profi newid cadarnhaol yn nifer y swyddi, gyda chynnydd o ryw 28% i'w weld yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Amcangyfrifir hefyd y gallai effaith pandemig Covid wthio lefelau tlodi ac amddifadedd yn ôl 9.1 o flynyddoedd.

- **Mae Technoleg** yn esblygu'n barhaus i feysydd a disgyblaethau newydd, gan ledu ei chwmpas a'i heffaith ar draws y byd. Cyfeirir at hyn yn fynych fel Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol, ac ni fydd Cymru a Chastell-nedd Port Talbot wedi'u hynysu o effaith datblygiadau technolegol.

Mae pandemig COVID-19 wedi cyflymu cymhwysiad technoleg mewn nifer o feysydd, e.e. rhyngweithio cymdeithasol ar-lein, gweithio gartref a'r angen i gael mynediad i wasanaethau allweddol fel addysg, iechyd a gofal cymdeithasol ar-lein.

Mae technoleg hefyd yn ffactor allweddol wrth sbarduno newidiadau polisi allweddol ynghylch y newid yn yr hinsawdd, nid o ran technolegau ffisegol yn unig sy'n cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy neu'n hwyluso aildefnyddio ac ailgylchu, ond hefyd y systemau digidol a ddefnyddir i gefnogi newidiadau i arferion gwaith neu i werthuso effeithlonrwydd data a phrosesu gwelliannau sy'n lleihau'r defnydd o wastraff ac ynni.

Oddi mewn i Gastell-nedd Port Talbot, er bod cynhwysiant digidol gwell, mae peth tystiolaeth sy'n awgrymu bod bwlbch cynhwysiant yn parhau rhwng rhai grwpiau demograffig a sosio-economaidd.

Bydd yn her cyflwyno manteision esblygiad technolegol yn gyfartal ar draws Castell-nedd Port Talbot, i sicrhau nad yw pobl leol yn cael eu gadael ar ôl wrth i dechnoleg esblygu, yn arbennig gan mai Cymru ar hyn o bryd sydd â'r gyfran isaf o bobl â set sgiliau digidol sylfaenol, sy'n cyfyngu ar eu gallu i fanteisio ar ddigideiddio (Banc Lloyds (2021)).

Ar ben hynny, mae'r seilwaith sy'n gyrru twf deallusrwydd artiffisial (AI) yn parhau i ddatblygu, ac mae ganddo'r potensial i gyflawni manteision economaidd a chymdeithasol; mae'n debygol y bydd ffyrdd hyblyg o weithio'n parhau, ac mae angen i dechnoleg chwarae rôl bwysig i alluogi hynny i ddigwydd.

Yn ystod y cyfnod o 2014-18, roedd pobl mewn gwaith am gyflog isel, yn ogystal â'r rhai mewn rolau oedd yn wynebu cwsmeriaid, yn gweithio gyda pheiriannau, neu'n cyflawni rolau masnachol medrus, yn llai tebygol o gael cynnig cyfle i weithio o bell. Hefyd, dim ond 3% o gyflogeion lletygarwch a 5% o gyflogeion manwerthu gafodd gyfle i weithio gartref yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y rhai mwyaf tebygol o fedru gweithio o bell yn cael eu cyflogi mewn rolau cyllid, yswiriant a busnes (31%) neu weinyddiaeth gyhoeddus (32%).

Mae ansawdd swyddi, felly, yn debygol o ddod yn ffactor cyfrannol pwysig wrth alluogi gweithio hyblyg ac o bell i ddod yn norm yn y dyfodol. Er bod y data hwn yn cymryd gweithio gartref cyn y pandemig i ystyriaeth, mae canlyniadau'r effeithiau mwy hir dymor yng nghyswllt gweithio gartref yn aneglur, ond mae'n debygol bod y gallu i weithio gartref, ac agweddau at wneud hynny, wedi newid yn sylweddol yn dilyn y pandemig.

Mae tueddiadau i'r dyfodol yn adrodd mai rolau a ddsbarthir fel rhai 'sgiliau isel' yw'r rhai y bernir eu bod yn wynebu'r risg uchaf yn sgîl datblygiadau awtomeiddio a thechnoleg. Mae hynny'n golygu y bydd angen i alwedigaethau megis gweinyddwyr, llanwyr siffoedd a gweithwyr manwerthu addasu a meddu ar y sgiliau digidol angenrheidiol i ymgymryd â rolau'r dyfodol, gan mai'r swyddi hyn yw'r rhai mwyaf tebygol o gael eu hawtomeiddio. O ran pwysu a mesur Castell-nedd Port Talbot, mae'n ddiddorol mai pobl iau a benywod sy'n fwyaf tebygol o gael eu cyflogi mewn swyddi sy'n galw am lefel isel o sgiliau.



## YR ECONOMI LEOL



***Mae gan Castell-nedd Port Talbot hanes balch o arloesedd diwydiannol. Yn wreiddiol roedd wedi'i seilio ar lo, dur a phetrogemegau, heddiw, mae'n un o leoliadau gweithgynhyrchu pwysicaf Cymru, ac yn cynnwys cyfadeilad cynhyrchu dur mwyaf y Deyrnas Unedig ym Mhort Talbot a chyfres o safleoedd datblygu strategol sydd ag arwyddocâd cenedlaethol.***

Er ei fod wedi profi ailstrwythuro sylweddol yn ystod y degawdau diwethaf, mae'r economi leol yn parhau i brofi canlyniadau tymor hir symud i ffwrdd oddi wrth ddiwydiant trwm a gweithgynhyrchu ar raddfa fawr, ond ar yr un pryd, mae'n dal yn un o'r rhanbarthau yn y Deyrnas Unedig lle ceir y crynodiad uchaf o ddiwydiant.

Gyda ffynhonnell dda o gyflogaeth o safon, mae'r economi leol yn unigryw ac yn darparu cyfleoedd sylweddol ar gyfer twf yn y dyfodol o amgylch ei safleoedd pwysig ar y glannau, Parth Menter dynodedig, a'i botensial sylweddol ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol. Fodd bynnag, bydd gwireddu graddfa llawer o'r cyfleoedd hyn ar gyfer twf yn y dyfodol yn galw am fuddsoddi cyhoeddus a phreifat dros gyfnod estynedig.

Yn achos llawer o ddangosyddion sy'n ymwneud yn arbennig â sgiliau a chyflogaeth, fodd bynnag, mae'r ardal yn wynebu llawer o heriau sy'n gysylltiedig â sawl crynodiad o amddifadedd.

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn uchelgeisiol ynghylch y dyfodol ac yn ymdrin yn rhagweithiol â datblygu economaidd a chefnogaeth i dwf busnesau. Wrth i'r economi ddod allan o argyfwng Covid 19, ac i gyd-fynd â'r gwaith Asesu Llesiant newydd a'r adolygiad o'i Gynllun Corfforaethol, mae'r Cyngor wedi cychwyn datblygu Cynllun Adferiad newydd ar gyfer Datblygu Economaidd er mwyn darparu strategaeth ymarferol a chyflawnadwy i'r tymor canolig i hir, a chynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar gyflawni twf busnes a chyflogaeth oddi mewn i economi fwy amrywiol a gwydn.



#### **Gweithgynhyrchu/Peirianeg**

- Cryn bwysigrwydd i'r economi leol – tua 9,000 o'r swyddi (19%) sy'n fwy na dwywaith cyfartaledd y Deyrnas Unedig.
- Sbardun allweddol i lefelau cyflogau ac incwm.



#### **Y Diwydiant Dur**

- Cyflogi rhyw 4,000 yn lleol ac yn cynnal 1000oedd yn fwy trwy'r gadwyn gyflenwi.
- Cynlluniau i rannu busnes TATA yn fusnes annibynnol i'r Deyrnas Unedig.
- TATA/Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio ar fargen i gefnogi'r pontio i broses carbon isel o greu dur.
- Pontio yn sgîl BREXIT yn achos ansicrwydd pellach.



#### **Twristiaeth**

- Sbardun allweddol i'r economi ranbarthol.
- Wedi cyfrannu dros £120m i economi CNPT (2018).
- Cynnal rhyw 1500 o swyddi lleol.
- Denu 1.5m o ymwelwyr yn 2018.



#### **Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch**

- 6000 o swyddi ym maes manwerthu a rhyw 2000 arall yn gysylltiedig â lletygarwch.
- 57% o'r gweithlu yn fenywod, a rhwng 16 a 24 oed.
- Cynrychioli % o'r boblogaeth waith, % o'r swyddi lleol, ac mae'n sbardun allweddol i incwm cyflogau.



#### **Adeiladu**

- Sector blaenoriaeth i Gymru.
- Cynnal 2000 (4.2%) o swyddi lleol.
- Gwrywod yw mwy nag 80% o'r gweithlu.



#### **TGCh**

- 1.5% o'r swyddi, ond potensial i dyfu'n sylweddol.
- Clystyrau o fusnesau cartref/byd-eang yn dechrau dod i'r amlwg.



#### **Iechyd/Gwaith Cymdeithasol**

- Cynnal 7000 (14.6%) o'r swyddi, sy'n uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig.
- Potensial i dyfu'n sylweddol wrth i ni ymateb i'r pandemig.

## ALLBWN ECONOMAIDD



***Yn 2018, roedd economi Castell-nedd Port Talbot yn werth rhyw £2.6 biliwn, gyda chapasiti i gynnal rhyw 56,000 o swyddi. Yn ystod y blynyddoedd a arweiniodd at y pandemig, tyfodd cyflogaeth yn eitha cryf: cynyddodd nifer y swyddi 10% rhwng 2014 a 2019.***

Ffigur 1: Mynegai Twf GVA (1998=100)  
Ffynhonnell: ONS, GVA chained volume measure (gwerth arian 2016)



Ddiwedd y 1990au a dechrau'r 2000oedd, profodd yr economi leol symudiadau strwythurol yn ei chyfansoddiad, gyda'r cyfanswm allbwn yn gostwng yn sylweddol. Y rheswm am hyn oedd colli gweithgarwch gweithgynhyrchu, yn bennaf mewn cysylltiad â'r diwydiant dur a'i gadwyn gyflenwi gysylltiedig a chau gweithfeydd petrocemegau. Ers hynny, mae'r economi leol wedi parhau i newid ac mae'r twf cyflymaf yn ddiweddar yn awr yn digwydd ym meysydd trafndiaeth a storio; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cefnogi; iechyd; a hefyd (o sylfaen lawer llai) gwybodaeth a chyfathrebu.

Serch hynny, mae'r allbwn gweithgynhyrchu wedi sefydlogi'n fwy diweddar, a chyda rhyw 25% o'r allbwn (19% o gyflogaeth) yn y sector, mae'n parhau'n sbardun canolog (a gwerth uchel) i'r economi leol.

## Ymhlith yr ystyriaethau allweddol eraill a'r materion parhaus a allai effeithio ar berfformiad yr economi leol mae'r canlynol:

- Ni ellir tanbrizio dylanwad economaidd cyflogwyr megis Tata Steel o ran cynnal lefelau incwm cyfredol. Byddai unrhyw ailstrwythuro pellach i'r diwydiant yn effeithio ar lesiant economaidd canran sylweddol o drigolion CNPT sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol o fewn y cwmni neu yn y gadwyn gyflenwi.
- Bydd gan dyrbinau gwynt sy'n arnofio oddi ar y lan rôl bwysig i'w chwarae o ran sut mae ynni'n cael ei greu, ei ddsbarthu a'i ddefnyddio yn y dyfodol. Mae datblygu Dociau Port Talbot yn cyflwyno cyfle gwych i ddefnyddio'r cyfuniad unigryw o fynediad at ddŵr dwfn; tir llwyd; cysylltiadau rheilffordd, capasiti gweithgynhyrchu a llafur medrus fel bod yr ardal yn dod yn "Hwb Cynhyrchu Tyrbinau sydd ag Arwyddocâd Byd-eang".


## SWYDDI: TWF A DWYSEDD

.....

**At ei gilydd, ers dirwasgiad 2008/09, mae perfformiad Castell-nedd Port Talbot wrth greu swyddi newydd wedi bod yn gryf, er gwaethaf twf cymharol wan ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Yn y blynyddoedd a arweiniodd at y pandemig, roedd twf swyddi yn gryf, gyda chynnydd o ryw 10% rhwng 2014 a 2019.**

Ar ben hynny, mae dwysedd swyddi Castell-nedd Port Talbot (nifer y swyddi fesul preswlydd oedran gwaith) hefyd wedi codi o 0.54 yn 2008 i 0.64 yn 2019. Roedd modd cymharu hyn yn fras ag ardal gyndogol Pen-y-bont ar Ogwr, ac roedd yn uwch na Rhondda Cynon Taf (er ei fod yn is nag Abertawe, fel y gellid disgwyl o ystyried swyddogaeth yr olaf fel canolfan ranbarthol). Yn 2019, roedd rhyw 56,000 o swyddi yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Ffigur 2: Mynegai Twf Swyddi (2008=100)  
Ffynhonnell: ONS, Dwysedd Swyddi




## GALWEDIGAETHOL: PROFFIL CYFREDOL

• • • • •

***Mae proffil galwedigaethol gweithlu Castell-nedd Port Talbot yn tueddu rhywfaint yn fwy at swyddi ‘lefel is o sgiliau’ na chyfartaledd Cymru neu’r Deyrnas Unedig.***

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd gostyngiad yn nifer y bobl a gyflogir mewn masnach fedrus a galwedigaethau ‘elfennol’, ochr yn ochr â chynnydd yn nifer y rolau proffesiynol a phroffesiynol cysylltiol. Fodd bynnag, hyd yn oed os bydd cyfanswm nifer y cyflogeion mewn galwedigaeth yn gostwng, bydd ‘galw amnewid’ o hyd wrth i weithwyr adael y gweithlu.

Ffigur 3: % mewn Cyflogaeth fesul Categori Galwedigaethol, Ebrill 2020 – Mawrth 2021  
Ffynhonnell: ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol



Mae’r tabl sy’n dilyn yn amlgu rhai sylwadau cenedlaethol ynghylch y galw tebygol yn y dyfodol ar sail argraffiad newydd Dyfodol Gwaith, ochr yn ochr â chyfran gyfredol gweithlu Castell-nedd Port Talbot a’r taflywbr diweddar.

## GALWEDIGAETHOL: TUEDDIADAU/GALWADAU I'R DYFODOL



Grŵp Galwedigaethol	Gweithlu CNPT, 2020	Gweithlu CNPT 2020 %	Arsylwadau ar y galw posibl yn y dyfodol hyd at 2027
Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion	4,000	6.4	Rhagwelir twf a gynhelir (+12% yn y Deyrnas Unedig yn 2017-27).
Galwedigaethau Proffesiynol	9,400	15.1	Rhagwelir twf a gynhelir (+12%).
Proffesiynol Cysylltiol a Thechnegol	6,500	10.5	Rhagwelir twf a gynhelir (+9%).
Gweinyddol ac Ysgrifenyddol	10,400	16.7	Eisoes wedi'i daro'n galed gan awtomeiddio, gyda swyddi sylweddol wedi'u colli ers y 1990au. Mae hyn yn debygol o gyflymu (-16%).
Masnach Fedrus	6,600	10.7	Mae colli rhagor o swyddi yn debygol yn sgîl y gostyngiad mewn cyflogaeth ym meysydd gweithgynhyrchu, y sectorau dosbarthu a thrafnidiaeth, patrwm parhaus o ddirywiad hirdymor (-9%).
Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau eraill	7,000	11.2	Tebygol o brofi rhai rhagolygon cyflogaeth cadarnhaol, cysylltiedig â galw cynyddol am ofal a gwasanaethau eraill ac anhawster mecaneiddio gwasanaethau personol nad ydynt yn rhan o drefn arferol (+14%).
Gwerthiant a Gwasanaeth i Gwsmeriaid	6,400	10.3	Twf yn debygol mewn rhai segmentau, ond at ei gilydd disgwylir colli swyddi, yn arbennig yn achos galwedigaethau gwerthu llai medrus (-2%).
Gweithredwyr Proses, Offer a Pheiriannau	4,300	6.8	Mae colli rhagor o swyddi'n debygol, yn gysylltiedig â gostyngiad mewn gweithgynhyrchu a thrafnidiaeth a dosbarthu (-9%).
Galwedigaethau Elfennol	6,400	10.2	Peth twf mewn rhannau o'r sector gwasanaeth lle mae awtomeiddio'n heriol, ond cydbwysir hynny gan golli swyddi mewn mannau eraill (dim newidiadau).

## CYNHYRCHEDD




***Yn 2019, roedd cynhyrchedd (oedd yn cael ei fesur yn ôl GVA fesul swydd a lanwyd) tua £48,200 yng Nghastell-nedd Port Talbot.***

Mae cynhyrchedd rywfaint yn uwch na chyfartaledd Cymru (mae hefyd rywfaint yn uwch nag yn siroedd cymdogol De-orllewin Cymru). Fodd bynnag, mae'r 'bwlch' rhwng y lefel a'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol yn gyson: yn gyffredinol mae'r GVA fesul swydd a lanwyd yn rhyw 85% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig.

Mae'n werth nodi bod gan y rhan fwyaf o leoedd gynhyrchedd 'sy'n is na'r cyfartaledd', gan fod cyfartaledd y Deyrnas Unedig yn cael ei wyro'n sylweddol gan Lundain. Mae dibynadwyedd data hefyd yn gyfyngedig ar lefel awdurdod lleol, ac mae rhai cymdogion yn yr un ardal teithio i'r gwaith (e.e. Pen-y-bont ar Ogwr a RhCT) yn 'perfformio' yn well, mae'n debyg. Yn gyffredinol, dylanwadir ar gynhyrchedd gan gydbwysedd y sectorau a'r cyfuniad o weithgareddau cyflogaeth o fewn yr economi (gyda'r rhan fwyaf o dystiolaeth yn canolbwyntio ar yr olaf fel y sbardun pwysicaf).

Ffigur 4: Cynhyrchedd (GVA (£) fesul swydd a lanwyd), 2002-19. Ffynhonnell: ONS, Dwysedd Swyddi




## GWEITHGAREDD ECONOMAIDD

.....

*Bu cynnydd cryf o ran codi cyfraddau gweithgarwch economaidd ar draws Castell-nedd Port Talbot yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda'r bwlch rhwng cyfartaledd Castell-nedd Port Talbot a'r Deyrnas Unedig yn cau. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiad sy'n gyffredin yn llawer o awdurdodau'r Cymoedd, wrth i'r rhai sy'n gadael y farchnad lafur (yn aml am resymau iechyd) yn dilyn ailstrwythuro diwydiannol yn cyrraedd oed ymdeol.*

Fodd bynnag, mae 'bwlch' yn dal i fodoli o ran gweithgarwch economaidd ymhlith pobl oedran gwaith, er bod cyflymdra'r newid wedi arafu rhywfaint yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ffigur 5: Cyfradd Gweithgarwch Economaidd, 2004-20. Ffynhonnell: ONS, Arolwg Poblogaeth Cenedlaethol. Cyflwynir data CNPT ar ffurf cyfartaledd treigl tair blynedd er mwyn gwastatáu data anwadal a sicrhau cyfyngau hyder uwch ar lefel leol



# MARCHNAD LAFUR / INCWM





## POBLOGAETH

*Yn 2020, roedd gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth o ryw 144,000. O'r rhain, roedd 62% rhwng 16 a 64 (yn ei hanfod yr un fath â chyfartaleddau'r Deyrnas Unedig a Chymru).*

Disgwylir i dwf y boblogaeth ddigwydd fymryn yn gyflymach nag yng ngweddill Cymru yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, rhagfynegir y bydd y boblogaeth 'oedran gwaith' fwy neu lai yn sefydlog yn ystod y cyfnod.

Ffigur 6: Mynegai o dwf poblogaeth hanesyddol (y brig) a'r hyn a ragfynegir (y gwaelod) (2000=100; 2018=100) Ffynhonnell: ONS, MYPE; StatsWales





Mae tua 70% o'r bobl yn byw yn y tair ardal drefol fwyaf:



**Mae Castell-nedd** yn dref farchnad hanesyddol ac yn ganolfan ddiwydiannol bwysig, ac ynghyd ag aneddiadau cyfagos Llansawel, Sgiwen a Llandarcy, mae ganddi boblogaeth o ryw 52,000.

Mae ardal drefol **Port Talbot** ar hyd yr arfordir yn ymestyn i Faglan, Taibach a Margam. Gyda phoblogaeth o 38,000, mae Port Talbot, gyda'i gwaith dur a'i phorthladd, yn cynnwys rhai o safleoedd datblygu strategol pwysicaf De Cymru.

**Pontardawe**, yng Nghwm Tawe, yw'r drydedd brif ganolfan, gyda phoblogaeth o ychydig dros 13,000.

Y tu hwnt i'r llain arfordirol a'r prif drefi, mae rhannau helaeth o Gastell-nedd Port Talbot yn wledig, gyda nifer o gymunedau cymharol bellennig, rhai ôl-ddiwydiannol yn bennaf; sef Cwm Afan, Bro Nedd, Cwm Dulais, pen uchaf Cwm Tawe a rhan o Ddyffryn Aman uchaf o amgylch Gwaun-Cae-Gurwen.

Mae ardal wledig Castell-nedd Port Talbot hefyd yn cynnwys asedau naturiol a threftadaeth pwysig, gan gynnwys Parc Coedwig Afan a Rhaeadr Aberdulais.

## CYFRIF HAWLWYR: CYFRADDAU CYFFREDINOL HAWLWYR

.....

*Swyddi yw un o'r sbardunau pwysicaf ar gyfer llesiant unigolion, a nhw yw dangosyddion llesiant cenedlaethol rhifau 21 a 22 yng Nghymru. Er bod cyflogaeth yn cael effaith gadarnhaol fawr ar lesiant, mae bod yn ddi-waith yn lleihau llesiant llawer mwy na'r hyn y gellir ei egluro yn nhermau colli incwm yn unig.*

Mae diweithdra yn gysylltiedig â llai o ymdeimlad o bwrpas, boddhad mewn bywyd a lefel uwch o orbryder. Er bod y gostyngiad mewn llesiant yn gyffredinol fwy yn achos dynion a phobl ifanc, po hiraf yw'r cyfnod o ddiweithdra, mwyaf y bydd yn effeithio ar bob unigolyn, beth bynnag yw eu rhywedd neu eu hoed. (What Works Wellbeing, 2017a).

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r gyfradd ddiweithdra yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn fras wedi bod rywfaint yn uwch nag yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol (er bod diweithdra'n gyffredinol yn dal yn isel o gymharu â safonau hanesyddol yn dilyn dirwasgiad 2008/09).

Yn aml mae daearyddiaeth Castell-nedd Port Talbot yn cael ei ystyried yn heriol, gan y gall diffyg cysylltiadau trafniadaeth olygu bod llawer o drigolion mewn cymunedau gwledig/yn y cymoedd yn methu cael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth. O ganlyniad, mae pobl sy'n byw yn y cymunedau pellennig hyn yn llawer mwy tebygol o fod yn ddi-waith neu'n gweithio mewn swyddi rhan amser neu gyflog isel na'r rhai sy'n byw yn ardaloedd trefol y Fwrdeistref Sirol.

Ar ddechrau'r pandemig, cododd diweithdra yn sydyn, h.y. rhwng Mawrth 2020 a Mawrth 2021, cododd y gyfradd 59%. Fodd bynnag, roedd y cynnydd hwn yn llawer is na chyfartaleddau Cymru neu'r Deyrnas Unedig, sef 86% a 111% y neu tro, gan adlewyrchu ymwneud cymharol is Castell-nedd Port Talbot â sectorau megis lletygarwch, yr oedd cyfyngiadau Covid wedi effeithio'n arbennig arnynt.

Ar hyd y pandemig, lliniarwyd y cynnydd sydyn mewn cyfraddau diweithdra gan y cynllun ffyrlo a chan yr ystod helaeth o fesurau ar ffurf grantiau, benthyciadau a chymorthdal trethi a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Deyrnas Unedig, a chan yr awdurdod lleol.

**Er gwaethaf cefnogaeth helaeth, fodd bynnag, mae'r data yn awgrymu bod y canlynol wedi digwydd yn 2020 (ONS, 2020a):**

- Gostyngodd incwm cyfartalog aelwydydd yn holl ranbarthau'r Deyrnas Unedig;
- Mae rhyw 12.5 miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig yn awr mewn sefyllfa ariannol waeth yn sgîl cyfuniad o'r pandemig a Brexit;
- Pobl ar lefel isel a chanolig o incwm personol (hyd at £20,000 y flwyddyn) yw'r rhai mwyaf tebygol o fod wedi adrodd am gollu incwm; a hefyd
- Roedd yr unigolion yr effeithiwyd yn fwyaf negyddol arnynt yn ariannol gan y pandemig yn fwy tebygol o ddod o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol (ONS, 2020a).

Ers i gyfyngiadau Covid gael eu llacio, mae cyfraddau diweithdra wedi gostwng (gostyngiad o 18% rhwng Mawrth ac Awst), ac o ganlyniad, ym mis Awst, roedd cyfradd Castell-nedd Port Talbot 0.7% yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig

Ym mis Awst 2021, roedd rhyw 4,000 o bobl yn CNPT yn hawlio Credyd Cynhwysol ac yn gorfod chwilio am waith, sy'n cyfateb i 4.5% o'r boblogaeth.

Ffigur 7: Cyfradd Cyfrif Hawlwyr, 2008-21. Ffynhonnell: ONS, DWP



### Cyfanswm Nifer y cyflogeion a fu ar ffyrlo ar hyd y pandemig

Ffynhonnell: HMRC: Ystadegau Swydddogol, Cynllun Cadw Swyddi yn ystod y

Coronafeirws: Rhagfyr 2021

- Castell-nedd - 9,600
- Aberafan - 9,000
- Cyfanswm - 18,600

Mae ymchwil wedi dangos bod ffyrlo wedi codi lefel llesiant rhieni, yn arbennig benywod, a fu o bosib yn jyglo addysgu gartref a gwaith, ond cafodd effaith negyddol ar yr unigolion hynny oedd ar incwm isel, gan eu bod o bosib, wedi cael eu hunain yn gyffredinol ar 'ymyl y clogwyn' o ran eu swydd ac ansicrwydd ariannol (Hardoon, 2021; Mind, 2020).

Mae'n amlwg bod y cynllun ffyrlo wedi helpu i ddiogelu iechyd meddwl pobl ar ddechrau'r pandemig yn erbyn y dirywiad y bydden nhw wedi'i brofi petaen nhw wedi colli eu swyddi (Hardoon, 2021). Ar ben hynny, roedd dros hanner y gweithwyr oedd ar ffyrlo llawn ym mis Mai 2021 yn 45 oed a throsodd, a byddai hynny'n sicr wedi effeithio ar eu llesiant wrth iddyn nhw dreulio cyfnod hwy heb weithio. (Resolution Foundation, 2021b).

## LEFELAU TÂL/CYFLOG


.....

***Yn 2021, cyflog wythnosol cyfartalog gros gweithwyr amser llawn oedd yn byw yn CNPT oedd £589.60, sy'n cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru, sef £570.60. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae gwahaniaeth amlwg rhwng enillion gweithwyr gwryw (£612.70) o gymharu â gweithwyr benyw (£518.30). Er yr ymddengys bod hyn yn wir ar draws Cymru, cydnabyddir y bydd y gyfradd uchel o weithwyr gwryw yn Tata Steel a'i ddiwydiannau cysylltiedig yn dylanwadu ar y gwahaniaeth sylweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot.***


Mae'r tâl yn y gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot yn uwch na'r tâl preswyl (ac er bod cryn dipyn o anwadalwch yn y data tâl ar lefel awdurdod lleol, mae'r patrwm hwn wedi bodoli yn ystod y pum mlynedd diwethaf). Mae hyn rywfaint yn anghyffredin: mae gan ardaloedd sydd â dwysedd cymharol isel o swyddi a lefelau uchel o gymudo allan yn nodweddiadol yn cynnwys enillion preswyl uwch nag yn y gweithle (gan fod pobl sy'n ennill cyflog uwch yn nodweddiadol yn gallu fforddio teithio ymhellach na'r rhai sy'n gweithio'n lleol).

Ymhlyg yn hyn mae'r ddealltwriaeth bod nifer cymharol uchel o'r rhai sy'n cymudo allan yn gwneud hynny i swyddi ar gyflog cymharol isel. Byddai hyn yn cyfateb i'r proffil galwedigaethol a sgiliau'r gweithlu. Mae'r patrymau cymudo a ddangosir ar y sleid nesaf (Ffigur 8) hefyd yn arwydd o ddsbarthiad eang cymudo i mewn (o bosib yn gysylltiedig â swyddi am gyflog uwch yn y Fwrdeistref Sirol), gyda chymudo allan yn canolbwyntio mwy ar gymydog agosaf Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, gyda'i sector gwasanaeth mawr.

Ffigur 8: Enillion Blynnyddol Amser Llawn Canolrif Gros (£), 2020. Ffynhonnell: ONS, Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion



Ffigur 9: Llifoedd Teithio i'r Gwaith: Patrymau Cymudo i Mewn ac Allan, Cyfrifiad 2011  
Ffynhonnell: ONS, Cyfrifiad 2011 yn cynnwys data ONS ©Hawlfraint y Goron a Hawl i'r Gronfa Ddata 2021



Mae'r berthynas gyda chymdogion agos – i bob cyfeiriad, ond yn arbennig i'r dwyrain a'r gorllewin, yn bwysig.

**Profodd Castell-nedd Port Talbot all-lif net o 7,500 o bobl yn 2011 i weithio mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill. Roedd hynny'n cynnwys:**

- 15,700 o bobl yn cymudo i mewn i'r ardal, yn bennaf o Abertawe a Phen-y-bont ar hyd Coridor yr M4, ac i raddau llai o Ronda Cynon Taf a Sir Gaerfyrddin.
- 23,200 o bobl yn cymudo allan o'r ardal – gyda'r gyfran uchaf o bell ffordd yn teithio i Abertawe (sydd i bob pwrpas yn ardal drefol sy'n gorgyffwrdd â rhan o'r Fwrdeistref Sirol) ac i raddau llai i Ben-y-bont, Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd.

## MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU 2019

.....


***Mae ffyniant economaidd yn dylanwadu ar lesiant yr unigolyn trwy ei effaith ar gymunedau ac ardaloedd lleol, yn ogystal â'i effaith ar amgylchiadau a sefyllfa ariannol personol. Mae ymchwil wedi dangos bod modd cysylltu lefel llesiant pobl â newidiadau mewn agweddau ar ffyniant economaidd neu amddifadedd ar y lefel leol (Curtis a Congdon, 2019).***

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (IMD) yn graddio 1,909 o gymdogaethau yn genedlaethol yn erbyn cyfres o wahanol fathau o amddifadedd.

Yn 2019, roedd y crynodiadau mwyaf o amddifadedd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn wardiau Sandfields ac Aberafan, Llansawel, rhannau o Gastell-nedd a'r ardal o amgylch Croeserw yn rhan uchaf Cwm Afan, sy'n cynrychioli dosbarthiad amddifadedd sy'n gysylltiedig â rhannau o ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot ac ardaloedd ôl-ddiwydiannol pen uchaf y cymoedd.

Dengys Ffigur 8 isod y 1,909 o Is-Ardaloedd Allbwn Uwch (LSOAs) yng Nghymru yn ôl eu lefelau cymharol o amddifadedd, gan ddefnyddio fersiwn 2019 o Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae'r lliwiau tywyllach yn dangos yr ardaloedd mwy difreintiedig, ac maen nhw wedi'u clystyru yn y dinasoedd ac yn rhanbarth De Cymru.

Ffigur 10: Llifoedd Teithio i'r Gwaith: Patrymau Cymudo i Mewn ac Allan, Cyfrifiad Ffynhonnell: data ONS ©Hawlfraint y Goron a Chronfa Ddata 2021



## STOC BUSNES/SECTORAU/CYFLOGAETH



### SECTORAU: BUSNESAU A CHYFLOGAETH

*Mae gan Gastell-nedd Port Talbot economi unigryw o ran y cydbwysedd rhwng sectorau. Gweithgynhyrchu sy'n cyfrif am ryw 19% o gyfanswm yr allbwn, mwy na dwywaith cyfartaledd y Deyrnas Unedig. Er bod cyfran gweithgynhyrchu o'r allbwn wedi gostwng yn sylweddol yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf – yn bennaf oherwydd bod y diwydiant dur wedi cywasgu – mae bellach wedi sefydlogi ac yn parhau'n arwyddocaol iawn.*

Yn fwy cyffredinol, yn yr 20 mlynedd hyd at 2018, ehangodd allbwn Castell-nedd Port Talbot â chyfradd twf blynyddol cyfansawdd o 1.1%, gyda'r twf cryfaf yn 2008-13. Oddi mewn i'r ehangu cyffredinol hwn, tyfodd rhai sectorau yn gryf, yn arbennig trafndiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu (o sylfaen lawer llai); gweithgareddau cysylltiedig â iechyd a gwasanaethau gweinyddol a chymorth.

### STOC BUSNES: PRIF BENAWDAU

Figur 11: Prif Benawdau Busnes

<b>STOC</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn 2019, roedd 3,275 o fentrau gweithredol yng Nghastell-nedd Port Talbot.</li><li>• Tyfodd cyfanswm stoc y mentrau gweithredol ryw 4% rhwng 2015 a 2019 (tua hanner cyfradd cynnydd y Deyrnas Unedig, ac yn sylweddol is nag yng Nghymru gyfan).</li><li>• Dwysedd y mentrau (nifer y mentrau fesul 10,000 o boblogaeth oedran gwaith) yn 2019 oedd 371 – ychydig dros hanner cyfradd dwysedd mentrau'r Deyrnas Unedig.</li></ul>
<b>PROFFIL MAINT</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn gyffredin â gweddill y wlad, mae mwyafrif mawr o'r busnesau yn Fentrau BaCh, er bod rhywfaint o dueddiad tuag at gyflogwyr mwy, gan adlewyrchu graddfa sylfaen gweithgynhyrchu Castell-nedd Port Talbot. Mae 88% o'r mentrau yn cyflogi llai na 10 o bobl (o gymharu ag ychydig o dan 90% yn y Deyrnas Unedig a Chymru yn gyffredinol).</li></ul>
<b>BUSNESAU NEWYDD</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cychwynnodd 375 o fusnesau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2019, sy'n cyfateb i ryw 11% o'r stoc mentrau gweithredol (yn cyfateb yn fras i Gymru gyfan, er bod hynny o dan gyfran busnesau newydd y Deyrnas Unedig).</li></ul>
<b>GOROESI</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae cyfraddau Goroesi'n dda at ei gilydd. Roedd tua 43.8% o'r busnesau a grewyd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2014 yn dal i fodoli 5 mlynedd yn ddiweddarach (o gymharu â 42.5% yn y Deyrnas Unedig gyfan a 42% yng Nghymru).</li></ul>

Yn ystod y pum mlynedd hyd at 2019, roedd twf cyflogaeth gryfaf ym meysydd llety a gwasanaethau bwyd; gweinyddiaeth gyhoeddus; trafnidiaeth a storio; a gweinyddiaeth a gweithgareddau gwasanaethau cymorth; gyda rhywfaint o gywasgu ar gyfanwerthu a manwerthu a hefyd (efallai er syndod, o ystyried twf cenedlaethol) gwasanaethau proffesiynol a gwyddonol.

O gymharu â'r economi genedlaethol, mae cyflogaeth CNPT wedi'i chrynhoi i raddau helaeth mewn gweithgareddau sector cyhoeddus a gweithgynhyrchu, gyda thangynrychiolaeth gymharol yn y gwasanaethau proffesiynol gwyddonol ac ariannol, gan adlewyrchu cyfansoddiad yr economi i raddau helaeth, fel y dangosir isod.

Ffigur 12: Prif Benawdau: Swyddi cyflogaeth a stoc busnes fesul sector  
Ffynhonnell: ONS, Cofrestr Fusnes ac Arolwg Cyflogaeth; UK Business Count

Sector	Swyddi Cyflogaeth (2019)	Twf/cywasgiad o ran swyddi, 2015-19**	Busnesau (unedau lleol, 2020)
Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota	300	↑	125
Mwyngloddio a Chwarela	350	↔	10
Gweithgynhyrchu	9000	↔	255
Trydan, Nwy, etc.	150	↓	10
Cyflenwad dŵr, carthffosiaeth, etc	700	↓	35
Adeiladu	2000	↓	475
Cyfanwerthu a Manwerthu; Atgyweirio Cerbydau Modur	6000	↓	670
Trafnidiaeth a Storio	2500	↑	185
Gwasanaeth Llety a Bwyd	3500	↑	355
Gwybodaeth a Chyfathrebu	700	↑	145

Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant	300	↔	65
Eiddo Tirol	800	↑	80
Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	1250	↓	340
Gwasanaeth Gweinyddol a Chymorth	2500	↑	290
Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn	4000	↑	60
Addysg	4500	↓	105
Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol	7000	↔	335
Celfyddydau, Adloniant a Hamdden	900	↓	110
Gwasanaethau Eraill	500	↓	205
Cyfanswm	48000	↑	3855

\*\*Mae Twf/cywasgiad swyddi wedi'i seilio ar gyfradd twf flynyddol gyfansawdd swyddi cyflogaion rhwng 2015 a 2019. Oherwydd bod data ar lefel rhanbarth wedi'i seilio ar samplau arolygon bach, ac yn cynnwys niferoedd bach sydd wedi'u crynhoi i fyny neu i lawr, mae dyfynnu'r union gyfraddau twf yn gamarweiniol – felly rydym ni wedi symleiddio'r darlun i ddisgrifio sectorau sydd wedi tyfu o ran cyflogaeth, y rhai sydd wedi cywasgu a'r rhai sydd wedi parhau yn fras yr un fath.

## ADDYSG/CYMWYSTERAU/SGILIAU

.....

**Mae ymchwil yn dangos bod y pandemig wedi gwaethygu anghydraddoldeb addysgol oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Cyn y pandemig, amcangyfrifid bod y bwlch cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru rhwng plant o gefndiroedd mwy cyfoethog a thlotach yn 16% yn 11 oed, yn codi i 32% erbyn lefel TGAU (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Rhagfynegir y bydd y pandemig yn ehangu'r bwlch hwn i 75% yng Nghymru a Lloegr (Education Endowment Fund, 2020).**



Ar ben hynny, mae cau ysgolion a'r orfodaeth i addysgu gartref wedi rhoi pwysau ar aelwydydd incwm is. Mae gan y rhai o'r ysgolion mwyaf difreintiedig a'r teuluoedd incwm is le cyfyngedig i astudio gartref, llai o fynediad at ddyfeisiau dysgu a/neu lai o gefnogaeth gan rieni a gofawyr gyda'r addysgu gartref. Ar ben hynny, bechgyn, disgyblion o leiafrifoedd ethnig a phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau sydd wedi dioddef effaith negyddol anghymesur ar eu haddysg yn sgîl y pandemig. (Green et al., 2020).

Mae'r pandemig hefyd wedi cael effaith negyddol dros ben ar lesiant myfyrwyr prifysgol hÿn, h.y. ansicrwydd ynghylch arholiadau a graddau, y newid i addysgu ar-lein, y cyfyngiadau ar ddychwelyd adref a'r diffyg mynediad corfforol i wasanaethau llesiant sydd fel arfer yn cael eu cynnig gan brifysgolion (Burns et al., 2020).

Cydnabyddir y bydd yr effeithiau hirdymor ar ddilyniant addysg, perfformiad marchnad lafur a llesiant yn parhau i'w teimlo am flynyddoedd lawer. (Blundell et al., 2021).

Mae Castell-nedd Port Talbot yn darparu digon o gyfleoedd dysgu, beth bynnag yw testun a lefel yr addysg. O brifysgolion o'r radd flaenaf sy'n cynnig cronfa gyflogaeth ddawnus a medrus ar gyfer buddsoddwyr, i golegau lleol yn cynnig dull amrywiol, ymarferol o ymdrin â hyfforddiant. Mae cyfleusterau addysgol o safon uchel ar gael sy'n cyflwyno'r holl gyrsiau o safbwynt galwedigaethol, o lefel mynediad i ymchwil ôl-ddoethurol.

Mae'r Rhaglen Strategol o Wella Ysgolion a menter Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif eisoes wedi buddsoddi £150 miliwn yn sicrhau bod ysgolion Castell-nedd Port Talbot yn fannau dysgu gyda'r cyfleusterau diweddaraf, sy'n galluogi athrawon i ganolbwyntio ar fwyafu deilliannau addysg.

**Mae swyddogaeth Addysg Oedolion y Cyngor hefyd yn darparu cyrsiau llythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd am ddim i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, i'w helpu i symud ymlaen i gyflogaeth a chaffael sgiliau sylfaenol. Mae'r cyflwyno'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau canlynol gan Lywodraeth Cymru:**

1. Sgiliau Hanfodol – llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol.
2. Sgiliau Cyflogadwyedd
3. Gweithgareddau ymgysylltu

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod 99% o'r rhai a ymrestrodd yn 2018/19 wedi cwblhau'r cwrs gyda chyrraedd o 98%. Yn ddiweddar pleidleisiwyd dros Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, un o'r darparwyr addysg bellach mwyaf yng Nghymru, yn yr 2il safle yn y Deyrnas Unedig fel 'Coleg Addysg Bellach Gorau ar gyfer Hyfforddiant Prentisiaeth' ac roedd ymhlith y 10 darparwr ar hyfforddiant ar y brig yn y Deyrnas Unedig. Ar ben hynny, gwelodd canlyniadau TGAU 2020/21 yn y Sir, gan fod llawer o'r dysgwyr yn cael bod asesiadau athro yn broses lai straenus na sefyll arholiadau.

## PRESENOLDEB



***Gostyngodd presenoldeb disgyblion oed cynradd o 94.14% yn 2017/18 i 91.18% yn 2020/21 oherwydd pandemig covid 19. Dim ond hyd at ganol mis Mawrth mae ffigurau 2019/20 yn mynd, gan fod yr ysgolion ar gau i'r mwyafrif o ddisgyblion, a bod y pandemig hefyd yn cael effaith negyddol ar bresenoldeb yn ystod rhan gynnar 2021/22. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn bod ysgolion yn cyflwyno data presenoldeb na thargedau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.***

Presenoldeb Ysgol-Oed Cynradd	2017/18	2018/19	2019/20	2021/21
Disgyblion B1-B6 Pawb	94.14%	94.02%	93.83%	91.18%
Disgyblion B1-B6 Bechgyn	94.14%	94.02%	93.83%	91.18%
Disgyblion B1-B6 Merched	94.30%	94.20%	94.04%	91.34%
Disgyblion B1-B6 Prydau Ysgol am ddim	94.14%	94.02%	93.83%	91.18%
Disgyblion B1-B6 Dim prydau ysgol am ddim	94.77%	94.84%	94.74%	93.44%

Mae'r pandemig wedi effeithio'n fwy ar bresenoldeb oed uwchradd, gyda phresenoldeb o 87.88% yn 2020/21 o gymharu â 93.48% yn 2017/18. Ar hyn o bryd mae ffigurau tymor cyntaf 2021/22 o dan lefelau 2020/21. Roedd cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim, un o'r mesurau amddifadedd, yn 26.8% yng Nghastell-nedd Port Talbot adeg cyfrifiad ysgol 2021, ac yn un o'r cyfraddau uchaf yng Nghymru. Mae'r pandemig wedi cael effaith lawer mwy negyddol ar bresenoldeb y disgyblion hyn, yn arbennig yn y sector uwchradd, nag ar ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Presenoldeb Ysgol-Oed Uwchradd	2017/18	2018/19	2019/20	2021/21
Disgyblion B7-B11 Pawb	93.48%	93.46%	92.51%	87.88%
Disgyblion B7-B11 Bechgyn	93.40%	93.41%	92.53%	87.86%
Disgyblion B7-B11 Merched	93.56%	93.51%	92.49%	98.90%
Disgyblion B7-B11 Prydau Ysgol am ddim	89.46%	89.80%	88.46%	79.08%
Pupils Y7-11 Non FSM	94.46%	94.46%	93.63%	90.64%

## POBL IFANC NAD YDYNT MEWN ADDYSG, CYFLOGAETH NA HYFFORDDIANT (NEET)

.....

*Mae hyn wedi bod yn broblem arbennig yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda ffigurau uwch na'r cyfartaledd yn cael eu hadrodd am flynyddoedd lawer.*

Mae'n anodd canfod, monitro a diweddarau'r ystadegau diweddaraf oherwydd bod ffynonellau niferus yn crynhoi'r ffigurau gan ddefnyddio methodolegau gwahanol, h.y.

- Yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS), arolwg o aelwydydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) sy'n edrych ar amgylchiadau personol, gan gynnwys statws yn y farchnad lafur a gweithgarwch addysg a hyfforddiant. Mae'r APS yn cyfuno samplau Arolwg y Farchnad Lafur (LFS) wedi'u cyfnerthu ar sail data treigl pedair chwarter, ac mae'r canlyniadau'n amcangyfrifon a seiliwyd ar samplau.
- Mae'r gyfres Rhyddhau Cyntaf Ystadegol (SFR) yn darparu data i lunwyr polisi a'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc i fonitro tueddiadau ac effaith ymyriadau addysg a'r farchnad lafur ar bobl ifanc. Mae'r rhain yn deillio o gyfuno ystod o ffynonellau cynradd, gan gynnwys cyfrifiadau ymrestru addysgol o ysgolion, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith ac amcangyfrifon poblogaeth ONS ar ddiwedd y flwyddyn galendr. Gall fod elfennau o amrywiaeth wrth samlo, felly dylid dehongli'r canlyniadau, a defnyddio ffynonellau eraill ar gyfer ystadegau NEET i'w hategu.
- Mae Gyrfa Cymru yn cynnal arolwg blynyddol o holl ymadawyr ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r arolwg hwn yn casglu cyrchfannau ymadawyr ysgol. Nid yw'r rhai sy'n mynychu colegau addysg bellach ac ysgolion annibynnol yn cael eu cynnwys. Nid oes modd cymharu'r gyfres hon yn uniongyrchol â'r gyfres SFR na'r gyfres APS oherwydd gwahaniaethau yn y diffiniadau. Dyma'r unig ffynhonnell sy'n darparu amcangyfrifon ar lefel awdurdod lleol, ond mae'r samplau'n fach a dylid osgoi cymharu ar draws awdurdodau lleol oherwydd amrywiadau yn y gyfradd dim ymateb.

Ffigur 13: Heb fod mewn Cyflogaeth, CALI, a Hyfforddiant: Tabl Cyflogaeth yn dangos dadansoddiad o'r holl bobl ifanc y gwyddys nad ydynt mewn Cyflogaeth, CALI, neu WBTYP (Hyfforddiant seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc)

	Gwryw	%	Benyw	%	Cyfanswm	%
<b>Yn gallu mynd i Gyflogaeth, Addysg neu WBTYP</b>	108	55.4	102	63.8	210	59.2
<b>Yn methu mynd i Gyflogaeth, Addysg neu WBTYP oherwydd salwch, beichiogrwydd a rhesymau eraill</b>	87	44.6	58	36.3	145	40.8
<b>Cyfanswm</b>	195	100	160	100	355	100

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol Gyrfa Cymru (Cyrchfan disgyblion ar 31 Hydref 2020, ar sail 10,059 o ddisgyblion yn cwblhau Blwyddyn 13 yn 2020)

Ar ben hynny, mae dangosyddion ynghylch cyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn rhan o asesiad cynnydd blynyddol y Strategaeth Tlodi Plant (sydd y tu allan i gwmpas y ddogfen hon).

Mae'n anodd iawn caffael data penodol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac mae angen bod yn ofalus, gan fod y canlyniadau'n dibynnu i raddau helaeth ar y ffynhonnell a ddefnyddiwyd.

## CYMWYSTERAU'R GWEITHLU


.....

*Yn gyffredinol, mae cymwysterau'r gweithlu wedi gwella dros amser, wrth i weithwyr sydd heb lawer o gymwysterau ffurfiol gyrraedd oed ymddeol a gadael y farchnad lafur, ac i'r galw am sgiliau lefel uwch gynyddu. Fodd bynnag, mae cyflymdra'r newid wedi bod rywffaint yn arafach yng Nghastell-nedd Port Talbot nag yng ngweddill Cymru a'r Deyrnas Unedig, gyda'r gyfran a gymhwysodd at lefel NVQ3+ ac NVQ4+ yn sylweddol is na chyfartaleddau cenedlaethol a'r Deyrnas Unedig.*

Ffigur 14: Cymhwyster Uchaf y Boblogaeth 16-64 oed, %  
Ffynhonnell: ONS, APS. Data K/Cymru 2020; cyfartaledd data 3-blynedd CNPT 2018-20

	NPT	Cymru	Y Deyrnas Unedig
NVQ4+	28.4	38.5	43.0
NVQ3+	48.4	58.3	61.2
NVQ2+	71.6	76.5	78.0
NVQ1+	83.0	86.7	87.6
Cymwysterau eraill	6.0	5.6	5.8
Dim cymwysterau	11.0	7.7	6.6

Ffigur 15: % o'r boblogaeth a gymhwysodd i NVQ4+ a heb gymwysterau, 2004-2020  
Ffynhonnell: ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Cyflwynir data CNPT ar ffurf cyfartaledd treigl tair blynedd i leddfu anwadalwch y data a chyfyngau hyder uchel ar lefel leol



## PRENTISIAETHAU



*Bydd twf cynlluniau Prentisiaeth, gan gynnwys y Brentisiaeth Uwch, yn mynd rywfaint o'r ffordd at wella mynediad i hyfforddiant ac addysg oedolion, yn ogystal â chau'r bwlch cymwysterau a sgiliau rhwng Castell-nedd Port Talbot a gweddill Cymru.*

Number of apprenticeship programmes delivered in Neath Port Talbot – Stats Wales

Academic Year	Foundation Apprenticeship - Level 2	Apprenticeship - Level 3	Higher Apprenticeship - Level 4	Total
2017/18	1295	1375	670	3335
2018/19	1315	1450	610	3380
2019/20	1020	1300	615	2940
2020/21	1005	1170	575	2745

## GOFAL PLANT YN CNPT



Mae Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant CNPT 2022 (sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd) wedi amlygu angen i wneud y canlynol:

- Helpu teuluoedd i gael mynediad i gefnogaeth a phethau y gallant eu hawlio i'w helpu gyda chost gofal plant yng nghyd-destun argyfwng costau byw a chwyddiant cynyddol.
- Cefnogi datblygiad staff a helpu lleoliadau i recriwtio a chadw staff yn y sector.
- Ymdrin â diffygion yn y ddarpariaeth Gymraeg.
- Sicrhau bod teuluoedd â phlant sydd ag anabledau, salwch tymor hir neu anghenion dysgu ychwanegol yn gallu cael mynediad i'r gofal plant angenrheidiol maen nhw eisiau.
- Ymdrin â'r bwlch yn y ddarpariaeth ar ôl ysgol.

Ar ben hynny, nid oes darpariaeth gofal plant gofrestrdig yn y canlynol: Aberdulais, Canol Coedffranc, Dyffryn, Godre'r graig, Brynaman Isaf, Pelena a Threbannws.

Ym mis Tachwedd 2021 roedd 10,522 o aelwydydd1 yng Nghastell-nedd Port Talbot yn derbyn Credyd Cynhwysol, sy'n cyfateb i 17% o aelwydydd. Ar draws Cymru mae 37% o'r bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol mewn gwaith2. Mae Tablau 26 a 27 yn awgrymu mai cyfran fechan yn unig o'r teuluoedd â phlant sy'n hawlio credyd cynhwysol sydd hefyd yn derbyn yr hyn y gallant ei hawlio o ran gofal plant.

## GOFAL PLANT FEL RHWYSTR I WAITH



Gall costau gofal plant fod yn rhwystr i waith a hyfforddiant. Mae'r rhaglen PaCE (rhieni, gofal plant a chyflogaeth) yn rhoi cefnogaeth i helpu rhieni/gofalwyr nad ydynt mewn gwaith i symud i hyfforddiant a chyflogaeth. Gall y gefnogaeth gynnwys cyllid ar gyfer gofal plant ac arweiniad ynghylch budd-daliadau fydd yn helpu i wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy.

## Y CYNNIG GOFAL PLANT I GYMRU



Seiliwyd cymhwysedd ar gyfer gofal plant ar rieni sy'n gweithio. Ar gyfartaledd, mae 62.9% o'r rhieni sydd â phlant dibynnol yn gweithio (data Cyfrifiad 2011). Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae'r gyfradd gyflogaeth yn amrywio o uchafbwyntiau o 78% ym Margam a 76% yn Rhos a Baglan i isafbwyntiau cyferbyniol yng Ngwynfi (39%), Cymer (45%) a Gorllewin Sandfields (45%).

Tabl 31. Y Galw Posibl am y Cynnig 30 Awr yng Nghastell-nedd Port Talbot

Cyfanswm nifer y Lleoedd Gofal Plant (3-4 oed)	Statws teuluol yn ôl nifer y rhieni sy'n gweithio	Teulu sy'n gwpl: y ddau riant yn gweithio	Teulu un riant: riant yn gweithio	Nifer y Plant Cymwys
3,066	28,422	14,990	2,895	1,917

[1. Aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol fesul Awdurdod Lleol](#)

[2. TUC: Universal Credit Cut Will Hit Million of Working Families](#)

Mae'r data yn nhabl 31 yn awgrymu bod 1,917 o blant yn gymwys i dderbyn y cynnig 30-awr, ac yn 2022 bu 597 o blant yn manteisio ar y cynnig 30 awr. Ar y sail hon, ychydig dan draean o'r teuluoedd fanteisiodd ar y gefnogaeth roedd ganddynt hawl i'w derbyn. Dywedodd 43% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg gofal plant eu bod yn cael mynediad i'r cynnig 30 awr ar hyn o bryd.

## COFRESTRADAU A DADGOFRESTRADAU AGC



Ar adeg yr asesiad blaenorol (2017) roedd 2,254 o leoedd gofal plant ar draws Castell-nedd Port Talbot, mae hyn wedi gostwng 10% yn y pum mlynedd rhwng y ddau asesiad. Mae Tabl 35 yn dangos bod argaeledd lleoedd mewn lleoliadau Gofal Dydd Llawn wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, gyda gostyngiadau sylweddol yn y ddarpariaeth gofal dydd sesiynol a gwarchodwyr plant. Mae'n bwysig cydnabod bod lleoliadau Gofal Dydd Llawn yn darparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys gofal sesiynol a gofal y tu allan i'r ysgol.

Tabl 36. Cymharu'r Lleoedd Gofal Plant Cofrestredig yn 2017 a 2021

Math o Ddarpariaeth	2017 SASS	2021 SASS	Canran y Newid
Gofal Dydd Llawn	875	1,246	+42%
Gofal Dydd Sesiynol	314	179	-43%
Gofal y tu allan i'r Ysgol	264	124	-9%
Gwarchodwr Plant	801	472	-41%
CYFANSWM	2,254	2,021	-10%

Fodd bynnag, er bod nifer y lleoliadau a'r lleoedd wedi gostwng, mae nifer y plant sy'n defnyddio gofal plant wedi cynyddu. Yn 2017, adroddodd darparwyr fod 2,424 o blant ar eu llyfrau (yn ystod y tymor), o gymharu â 2,925 yn 2021, sef cynnydd o 20%. Yn y pen draw mae cynaliadwyedd gofal plant yn gysylltiedig â'r defnydd o ofal plant gan rieni a gofalwyr. Gallai argyfwng costau byw effeithio ar y sector. Ymhlith y rhieni a gwblhaodd ein harolwg ond nad ydynt yn defnyddio gofal plant, y rhwystr pennaf oedd bod "gofal plant yn rhy ddrud". Roedd 85% o'r rhieni a'r gofalwyr a gwblhaodd arolwg yr asesiad digonolrwydd gofal plant o'r farn bod gofal plant yn rhy ddrud. Fodd bynnag, 8% yn unig o'r rhai oedd yn defnyddio gofal plant a ddywedodd y byddai gofal plant mwy fforddiadwy yn welliant.

#### Datblygiadau i'r dyfodol fydd yn allweddol ar gyfer gofal plant:

- Bydd cyfnod 1 ehangu Dechrau'n Deg yn cychwyn ym mis Medi 2022, gyda rhai Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is newydd (i'w cytuno) a 127 o blant ychwanegol yn cael eu targedu.
- Bydd gofal plant rhan amser Dechrau'n Deg i blant 2 oed yn dod ar gael i bawb yn ystod y 2 flynedd nesaf, ac yn cael ei gyflwyno'n raddol.
- Mae meini prawf cymhwysedd y Cynnig Gofal Plant wedi cael eu hestyn, i gynnwys rhieni mewn mathau penodol o addysg a hyfforddiant o fis Medi.
- Rydym ni'n datblygu nifer y lleoedd a'r lleoliadau gofal plant Cymraeg a Dwyieithog sydd ar gael yn CNPT, yn unol â'n [WESP](#) (cliciwch i weld), ac mae disgwyl i 5 lleoliad ychwanegol Cymraeg/Dwyieithog agor yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

## CYFLEOEDD A HERIAU ECONOMAIDD EHangach



### NEWID YN YR HINSAWDD/SERO NET/DATGARBONEIDDIO

***Newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ei hwynebu. Mae'r ffaith bod y tymheredd yn codi a'r digwyddiadau tywydd eithafol a achosir gan y newid yn yr hinsawdd yn rhoi pwysau ar ecosystemau, seilwaith, yr amgylchedd adeiledig a'n tirlun unigryw a'n treftadaeth ddiwylliannol, sydd fel ei gilydd yn cyfrannu at lesiant economaidd. Mae risgiau'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio'n anghymesur ar ein cymunedau bregus a gwaethygu'r anghysondeb economaidd. Bydd gohirio gweithredu nid yn unig yn gwneud y dasg yn anoddach ac yn fwy drud, ond hefyd gallai o bosib fod yn rhy hwyr.***


Mae ein heconomi yn newid yn cael ei hailwampio, ar sail yr angen am ymateb i her y newid yn yr hinsawdd a sicrhau ein bod yn cadw i fyny gyda gweddill y byd. Mae pennu ein llwybr datgarboneiddio ein hunain yn darparu'r sicrwydd a'r eglurder angenrheidiol i gefnogi a sbarduno gweithredu a buddsoddi carbon isel yng Nghymru. Mae'r pontio i economi garbon isel yn cynnig cyfleoedd o ran twf glân, swyddi o safon a manteision yn y farchnad fyd-eang, yn ogystal â manteision ehangach megis lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt, aer a dŵr glân, a gwell iechyd. Er bod rhaid i ni bontio i economi garbon isel, rhaid i ni sicrhau hefyd fod ein heconomi yn gydnherth yn wyneb yr effeithiau a'r risgiau a ddaw yn sgîl y newid yn yr hinsawdd.

Mae trydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig (CCRA3) yn nodi'r risgiau a'r cyfleoedd allweddol sy'n hanfodol i bob agwedd ar fywyd yn y Deyrnas Unedig, gan gwmpasu ein hamgylchedd naturiol, ein hiechyd, ein cartrefi, y seilwaith rydym ni'n dibynnu arno, a'r economi. Er mwyn sicrhau bod ein heconomi yn ffynnu ac yn gydnherth yn wyneb yr effeithiau a ddaw yn sgîl y newid yn yr hinsawdd, mae'n hanfodol bod tystiolaeth a chanllawiau fel y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio yn y dyfodol.

Ni fu'r angen am fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd erioed mor amlwg, wedi'i ategu gan fwriad polisi clir llywodraeth Cymru a llywodraeth y Deyrnas Unedig. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad swyddogol ynghylch Argyfwng Hinsawdd yn 2019, ac Argyfwng Byd Natur yn 2021, gan gydnabod arwyddocâd y ddwy her gysylltiedig hyn a'r angen am fynd i'r afael â nhw ar frys. Ategwyd rôl arweiniol y Deyrnas Unedig wrth daclo'r newid yn yr hinsawdd ymhellach yn ystod COP26 gyda chyfres o strategaethau ac ymrwymadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno llwybr uchelgeisiol ar gyfer cyflawni Sector Cyhoeddus Sero Net a Chymru Sero Net erbyn 2050, a bydd gofyn ein bod yn ein herio'n hunain, yn defnyddio pob trosol sydd ar gael i ni, ac yn cydweithio mewn partneriaeth i gyflawni.

Mae Castell-nedd Port Talbot yn wynebu her amgylcheddol ac economaidd allweddol wrth gyflawni'r nodau hyn yng nghyd-destun sylfaen ddiwydiannol ag arwyddocâd cenedlaethol. Yn 2019, cynhyrchedd Castell-nedd Port Talbot ryw 7,165 kt o allyriadau CO<sub>2</sub>, y cyfrifwyd amdanynt i raddau helaeth gan waith dur Port Talbot, gyda strwythur diwydiannol unigryw'r fwrdeistref sirol yn sbarduno'r dwysedd carbon uchaf o blith holl ardaloedd awdurdodau lleol y Deyrnas Unedig. Rhwng 2005 a 2019, gostyngodd cyfanswm allyriadau'r Deyrnas Unedig ryw 36%, er bod gostyngiad Castell-nedd Port Talbot yn llawer llai, rhyw 9% o sylfaen sylweddol uwch.

Ffigur 16: Allyriadau carbon (CO<sub>2</sub>, kt) per capita, 2005-19



This points to a key risk in the context of the commitment to Net Zero by 2050 with significant challenges in effecting low carbon transition in the medium term. Despite the substantial challenges presented by high industrial carbon intensity, Neath Port Talbot has significant opportunities.



Mae hyn yn cyfeirio at risg allweddol yng nghyd-destun yr ymrwymiad i Sero Net erbyn 2050, gyda heriau sylweddol o safbwynt llwyddo i bontio i garbon isel yn y tymor canolig. Er gwaethaf yr heriau sylweddol yn sgîl dwysedd carbon diwydiannol uchel, mae cyfleoedd arwyddocaol i Gastell-nedd Port Talbot.

Er mai Castell-nedd Port Talbot yw'r cyfrannwr mwyaf at allyriadau CO2 yn y Deyrnas Unedig, mae hefyd yn prysur ddatblygu'n arweinydd ym maes cynhyrchu ynni a buddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr. Castell-nedd Port Talbot sydd â'r ail gapasiti ynni adnewyddadwy uchaf a osodwyd yng Nghymru, ac mae iddi rôl bwysig yn datgarboneiddio ein hynni. Y sir hon sydd â'r capasiti uchaf o ran gwynt ar y lan yng Nghymru, gyda chyfanswm o 230 MW. Daw bron dau draean o'r capasiti hwn o fferm wynt Pen y Cymoedd, sydd ar y ffin rhwng Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf. Mae Pen y Cymoedd yn disgwyl cynhyrchu digon o bŵer yn flynyddol i ddiwallu'r galw am drydan gan fwy na 188,000 o aelwydydd yn y Deyrnas Unedig, a bydd yn mwy na diwallu galw domestig yr awdurdodau lleol lletya, Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot. Yn ystod oes y prosiect, disgwylir iddo arbed 6.4 miliwn tonnell o CO2.

Ym mis Mai 2020, lansiodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE), sy'n nodi sut bydd y Cyngor yn gweithredu i wrthweithio'r newid yn yr hinsawdd, a hynny trwy leihau ei ôl troed carbon ei hun a thrwy weithio gydag eraill i gyflwyno buddsoddiadau allweddol mewn technolegau carbon isel ac ynni adnewyddadwy. Cyflwynir y strategaeth yng nghyd-destun y prosiect rhanbarthol 'Adfywio Cymru' ac ymrwymiad Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i fuddsoddi mewn technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel.

Fel rhan o raglen £1.8 biliwn Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, bydd Sir Castell-nedd Port Talbot yn lleoliad i nifer o brosiectau. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau parhaus sy'n cefnogi arloesedd a thwf carbon isel, gan gynnwys SPECIFIC, (canolfan arloesedd a gwybodaeth), y Ganolfan Ymchwil Hydrogen, y Prosiect Systemau Ynni Integredig Hyblyg (FLEXIS) a Chanolfan Dechnoleg TWI (Cymru). Prosiect £24.5 miliwn FLEXIS yw'r unig ardal arddangos yng Nghymru, a'i nod yw creu systemau ynni carbon isel cenedlaeth nesaf mewn partneriaeth rhwng Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Tata Steel, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, a Phrifysgol De Cymru. Y weledigaeth yw creu canolfan ragoriaeth genedlaethol sy'n cyflwyno technoleg carbon isel, rhaglenni clyfar a chymwysiadau. Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot hefyd yn arwain y ffordd o ran hybu a chyflwyno'r prosiect Cartrefi sy'n Bwerdai, fel rhan o Fargaen ehangach y Ddinas-Ranbarth. Y nod yw cyflwyno cartrefi clyfar, carbon isel, ynni effeithlon trwy ddull gweithredu cydlynus ar draws y Ddinas-Ranbarth. Ymhlith y prosiectau eraill mae cynllun hydro-drydanol 30kw sydd i'w osod ym Mharc Gwledig Margam, to a fydd yn cynhyrchu pŵer solar ym Mharc Gwledig y Gnoll (sydd eisoes wedi'i osod ac yn cynhyrchu ynni). Mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn cynnwys prosiectau eraill niferus a fydd yn cefnogi Castell-nedd Port Talbot i fod yn esiampl o ran twf carbon isel ac arloesedd.

**Yn rhanbarthol, mae'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar ddatgarboneiddio (a gwireddu potensial ynni adnewyddadwy'r rhanbarth) fel colofn allweddol yn y strategaeth. Mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol i Gastell-nedd Port Talbot:**

- Ymdrechion trawsranbarthol i gefnogi datgarboneiddio diwydiannau cymharol garbon-ddwys (er enghraifft trwy brosiect Clwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC), y dyfarnwyd cyllid iddo'n ddiweddar gan UKRI.
- Yr angen i bob diwydiant addasu. Dros amser, bydd angen i bob gweithgaredd economaidd fod yn 'garbon isel' a bydd galluogi addasu yn allweddol ar gyfer cynaliadwyedd a chystadleurwydd lleol.

Mae'n amlwg bod angen brys am newid ac addasu economi Castell-nedd Port Talbot os ydym i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a chyflawni Cymru Sero Net erbyn 2050. Er y gallai hyn fod yn her sylweddol i Gastell-nedd Port Talbot oherwydd ei diwydiant trwm, mae cyfleoedd sylweddol hefyd i ni arddangos arloesedd ac arweinyddiaeth wrth ddatgarboneiddio ein heconomi.

Bydd Mentrau BaCh yn allweddol i gyflawni unrhyw raglen ddatgarboneiddio'n llwyddiannus, gan y bydd angen iddyn nhw addasu i gyfleoedd cyflogaeth newydd. Mae hyn yn her gan fod y pandemig wedi effeithio ar fuddsoddi ac amserlenni gwaith, felly mae'n bosibl na fydd cael hyd i amser ac adnoddau i fuddsoddi mewn uwchraddio sgiliau staff neu ffyrdd newydd o weithio fel ôl-osod a sgiliau gwyrdd, ar y blaen yn eu cynlluniau dyfodol agos. Ar ben hynny, ymddengys bod datgysylltiad rhwng nodau polisi Sero Net ac awydd busnes i ymgysylltu – hyd nes bod marchnad ar gyfer y sgiliau a'r cynnyrch newydd hyn, ni fydd mentrau BaCh yn awyddus i "brynu i mewn" i'r cysyniadau newydd hyn.

## ECONOMI GYLCHOL A COVID-19

.....

***Rydym ni'n gwybod nad ydym ni'n defnyddio ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Petai pawb yn defnyddio'r un symiau o adnoddau ag y gwnawn ni yng Nghymru, byddai angen dwy blaned a hanner i'n cynnal. Mae canlyniadau'r gorffdefnydd yma eisoes i'w teimlo ar ffurf y newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgeisiau ar gyfer economi gylchol, fydd yn cynnal adferiad gwyrdd a chyfiawn, yn ei strategaeth [Tu Hwnt i Ailgylchu](#).***

Mae economi gylchol yn cadw adnoddau a deunyddiau mewn defnydd cyhyd â phosibl ac yn osgoi pob gwastraff. Bydd hyn yn golygu symud i ffwrdd oddi wrth 'economy linol', sy'n rhagdybio cyflenwad cyson o adnoddau naturiol neu'r diwylliant cymryd-gwneud-defnyddio-gwaredu a seiliwyd ar echdynnu adnoddau, cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau, a gwaredu gwastraff ôl-ddefnyddio.

Mae'r economi gylchol yn cynnig dull gweithredu sy'n gallu gweithio i leihau cymeriant. Mae dull economi gylchol yn un o golofnau allweddol adferiad gwyrdd a chyfiawn, gan ei fod yn helpu nid yn unig i roi sylw i argyfwng yr hinsawdd a byd natur, ond hefyd yn sbarduno canlyniadau economaidd gwell a thecach i Gymru.

Mae gennym sylfaen gref ar gyfer economi gylchol eisoes yma yng Nghymru, gyda hanes cryf o gyflawni wrth ailgylchu. Mae Cymru'n un o arweinwyr y byd ym maes ailgylchu, ac mae eisoes yn y trydydd safle ymhlith goreuon y byd. Mae buddsoddiad £1 biliwn Llywodraeth Cymru mewn ailgylchu o aelwydydd ers datganoli wedi helpu i sicrhau bod cyfraddau ailgylchu yn codi o 4.8% yn 1998-1999, i fwy na 65% yn 2020-21. Mae'r gyfradd uchel hon o ailgylchu o aelwydydd yng Nghymru yn arbed dros 400,000 tonnell o CO2 y flwyddyn rhag cael eu rhyddhau i'r atmosffer, ac mae'n gyfraniad allweddol at daclo argyfyngau'r hinsawdd a byd natur.

Rydym wedi dysgu llawer trwy bandemig Covid-19, ac mae ein hadferiad wedi hynny yn cynrychioli cyfle unwaith mewn cenedlaeth i ailosod ein gwerthoedd unigol a thorfol, a'u haddasu i gyfateb i'r rhai sy'n ofynnol er mwyn creu dyfodol mwy cynaliadwy. Y consensws ar draws Cymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r tu hwnt yw bod rhaid i adferiad wedi Covid-19 roi sylw i argyfyngau gwaelodol byd natur a'r hinsawdd. Mae'r galwadau ar unigolion, busnesau, llywodraethau a sefydliadau bydeang i newid ffocws a chyflymu'r ymateb i'r pandemig ar hyd llwybr a fydd yn adfer byd natur ac yn datgarboneiddio ein heconomi wedi bod yn cryfhau. Byddai'r dull gweithredu integredig hwn yn ystyried byd natur a'r hinsawdd gyda'i gilydd fel sylfaen ar gyfer adfywio ac adnewyddu economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol yng Nghymru, gan adlewyrchu ffocws Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## CYSYLLTEDD



***Mae Castell-nedd Port Talbot yn cael ei wasanaethu'n dda gan seilwaith ffyrdd, yn arbennig yr M4 a'r A465 trwy Fro Nedd. Nid yw buddsoddi mewn ffyrdd yn y dyfodol yn flaenoriaeth yn strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, er y bydd yr ardal yn elwa o waith strategol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ar Ffordd Blaenau'r Cymoedd, gan wella mynediad i'r dwyrain i Ganolbarth Lloegr. Mae buddsoddiad diweddar, h.y. Ffordd yr Harbwr ym Mhort Talbot, hefyd wedi gwella mynediad i lawer o gyfleoedd allweddol.***

Mae mynediad da ar y rheilffordd ar hyd Prif Lein De Cymru, gyda chysylltiadau uniongyrchol â Chaerdydd a Llundain (a buddsoddiad diweddar yn seilwaith yr orsaf). Mae'n siom, fodd bynnag, bod y cynlluniau i drydaneiddio yn dal wedi'u lleihau. Mae Traftnidiaeth i Gymru hefyd yn cynllunio gwasanaethau gwell o Abertawe i Fanceinion o 2022, a bydd Metro Bae Abertawe a De-orllewin Cymru yn cynnig cyfle i wella cysylltedd, gan gynnwys (wrth i'r cynllun fynd rhagddo) i ben uchaf y Cymoedd.

Mae porthladd Port Talbot yn trafod mewnfurion mwynau a glo golosg i Tata Steel. Fodd bynnag, mae'n ased strategol allweddol, gan ei fod yn cynnig un o ddocfâu dyfnaf y Deyrnas Unedig, gyda chyfleoedd datblygu helaeth gerllaw. Ar ben hynny, mae ABP (perchennog y Porthladd) wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i gynhyrchu dogfen "Gweledigaeth" sy'n nodi sut gallai porthladd Port Talbot, trwy ddefnyddio'i gyfuniad unigryw o fynediad dŵr dwfn; tir llwyd; cysylltiadau rheilffordd; capasiti gweithgynhyrchu a llafur medrus gefnogi Port Talbot i ddod yn "Hwb Cynhyrchu Tyrbinau Arwyddocaol yn Fyd-eang" erbyn diwedd y 2020au.

O ran cysylltedd digidol, mae gwasanaeth cymharol dda yng Nghastell-nedd Port Talbot, a gwnaed cynnydd cryf yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae rhyw 98% o safleoedd yn gallu cael mynediad i fand eang cyflym iawn, yn dilyn llwyddiant estyn rhaglen Superfast Cymru, gyda 60% yn gallu cael mynediad i gysylltiad 'uwchgyflym' a 30% o safleoedd wedi'u galluogi ar lefel gigabit – er bod yr olaf wedi'u crynhoi ar hyd Coridor yr M4.

## CYSYLLTEDD DIGIDOL A SGILIAU



***Wrth i'r defnydd o'r Rhyngwrwd barhau i gynyddu ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig, adroddir bod 98% o safleoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gallu cael mynediad at fand eang cyflym iawn, ac mae 60% bellach yn gallu cael mynediad at lawrlwytho 'uwchgyflym', hyd at 300 Mbps. Ar ben hynny, mae 30% o'r safleoedd hefyd wedi'u galluogi ar lefel gigabit (Adroddiad Cenhedloedd Cysylltiedig, 2021).***

Bellach dim ond rhyw 10% o oedolion yng Nghymru sydd ddim yn defnyddio'r rhyngwrwd (ONS), ond mae'r gyfran o'r boblogaeth 75 oed a throsodd nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwd ar gynydd. Mae'r grŵp oed yma hefyd yn defnyddio'r rhyngwrwd 'wrth symud o gwmpas' yn llawer llai nag oedolion eraill – tueddiad sy'n lleihau gydag oed (Exploring the UK's Digital Divide, ONS).

Mae'r ystadegyn hwn yn cefnogi adolygiad diweddar gan Lywodraeth Cymru oedd yn adrodd bod 'rhaniad digidol' yn dal i fodoli rhwng y rhai sydd â'r sgiliau a mynediad at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r rhai sydd heb hynny, ac y gallai hynny olygu bod anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd yn cael ei waethgu ar gyfer y rhai sy'n cael eu heithrio'n ddigidol.

Adroddir hefyd bod bron 1 o bob 5 o bobl yng Nghymru heb sgiliau digidol sylfaenol, y gyfran uchaf o unrhyw ranbarth yn y Deyrnas Unedig. Mae cyflogwyr yn chwilio fwyfwy am sgiliau digidol ar gyfer swyddi ar bob lefel o sgiliau, ac mae 77% o'r rolau swyddi 'sgiliau isel' yn y Deyrnas Unedig mewn galwedigaethau lle mae angen sgiliau digidol (No longer optional: Employer demand for digital skills, Department for Digital, Culture, Media & Sport).

Mae'r galw am sgiliau sy'n ymwneud â chefnogaeth gyfrifiadurol a rhwydweithio 5% yn uwch yng Nghymru na chyfartaledd y Deyrnas Unedig (ibid.) ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai sgiliau cysylltiedig â thechnoleg fydd y sgiliau mwyaf gwerthfawr erbyn 2025 (The future of jobs report 2020, Fforwm Economaidd y Byd).

Mae busnesau'n addasu'n gynyddol i ddigideiddio ac yn mabwysiadu technolegau newydd, a rhagwelir y bydd mabwysiadu technolegau amgryptio a seiber-ddiogelwch yn cynyddu 29%, gydag amcangyfrif y bydd cyfrifiadura cwmwl yn cynyddu 17% (The future of jobs report 2020, Fforwm Economaidd y Byd).

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar dueddiadau gweithio o bell, a bellach mae tystiolaeth gynyddol o gynnydd ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig o ran darparu cyfleoedd gweithio o bell i gyflogeion. Bydd y cyfle'n amrywio'n sylweddol, fodd bynnag, gan ei fod yn dibynnu ar y diwydiant a'r alwedigaeth. Er enghraifft, mae unigolion a gyflogir mewn rolau masnach medrus, sy'n wynebu'r cwsmer, yn llai tebygol o fedru gweithio o bell, tra bod rolau gweinyddiaeth gyhoeddus a rheolaeth ymhlith y mwyaf hyblyg o ran gweithio o bell.

Wrth i Lywodraeth Cymru fabwysiadu uchelgais bod 30% o'r holl weithwyr yn "gweithio gartref neu'n agos at eu cartref" yn y dyfodol, gallai hynny arwain at fwy o gystadleuaeth am gyfleoedd cyflogaeth lleol gan rai y tu allan i'r ardal. Ar yr ochr gadarnhaol, fodd bynnag, gallai hynny olygu cyfleoedd da i Gastell-nedd Port Talbot, h.y. yn ogystal â chefnogi'r galw am ddefnyddiau hyblyg yng nghanol y dref, gallai gefnogi'r trigolion lleol hynny sy'n byw yng nghymunedau pellennig ein cymoedd i oresgyn rhwystrau trafniadaeth a'u helpu i gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth. Ochr yn ochr â thwf digideiddio, mae bygythiadau seiberddiogelwch yn berygl cynyddol i bob cymdeithas.

Mae gwaith yn debygol o barhau i gael ei awtomeiddio, gyda defnydd cynyddol o dechnoleg yn lle llafur, yn ogystal â gwreiddio technoleg ymhellach mewn gweithleoedd ac arferion gwaith presennol, gyda'r nod o gynhyrchu cyfleoedd, cynnyrch a gwasanaethau newydd a gwell. Amcangyfrifir bod rhyw 6.5% o'r swyddi yng Nghymru yn cynnwys 'potensial sylweddol i awtomeiddio', ffigur sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef 6.2% (Shaping the future: A 21st century skills system for Wales, IPPR Scotland).

## EIDDO MASNACHOL



Er gwaethaf sefyllfa Castell-nedd Port Talbot fel lleoliad diwydiannol pwysig a thystiolaeth o'r galw uchel am stoc diwydiannol, mae'r cyflenwad yn dal yn gymharol gyfyngedig. Er i'r adroddiad diweddar ar y Farchnad Eiddo Masnachol i Lywodraeth Cymru ganfod bod y bwlch dichonoldeb yn llai mewn ardaloedd arfordirol fel Castell-nedd Port Talbot nag mewn lleoliadau ymhellach i'r gorllewin, roedd yn cydnabod "os yw cynlluniau sylweddol i gael eu cyflwyno, bod angen yn parhau am ymyrraeth gyhoeddus uniongyrchol".

## SAFLEOEDD STRATEGOL



***Mae rhan o etifeddiaeth ddiwydiannol yr ardal, ar ffurf safleoedd mawr strategol megis Parc Ynni Bae Baglan; Glannau'r Harbwr a Glannau Port Talbot, a ddynodwyd yn Barth Menter yn 2016, yn helpu i symud ymlaen gyda buddsoddiad sy'n datblygu 'clwstwr' o weithgarwch busnes sy'n gysylltiedig â'r prif gyfleusterau arloesi.***

Gallai'r posibilrwydd o ddynodi Port Talbot yn borthladd rhydd hefyd fod yn gyfle i symud ymlaen gyda datblygiad ar y Glannau (ac o bosib y tu hwnt), ac mae'r Cyngor yn archwilio'r opsiwn hwn ar hyn o bryd.

Ar ben hynny, safle'r lofa glo brig yn Onllwyn, Cwm Dulais, yw'r lleoliad a gynlluniwyd ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd. Cefnogir y datblygiad hwn gan fuddsoddiad sylweddol mewn seilwaith, ac mae'n cynrychioli cyfle pwysig i ddod â chyfleoedd cyflogaeth i'n cymunedau yn y cymoedd.

## BUDDSODDI YNG NGHANOL TREFI



***Mae prif drefi Castell-nedd Port Talbot a'i chymunedau llai yn chwarae rhan ganolog fel canolbwyntiau ar gyfer gweithgarwch economaidd a chymdeithasol. Mae newidiadau strwythurol yn y galw am fanwerthu gan ddefnyddwyr, a ategwyd gan bandemig Covid-19, wedi rhoi swyddogaethau traddodiadol canol trefi o dan bwysau. Ochr yn ochr â cholli rhai siopau lluosog cenedlaethol, mae'r pandemig wedi arwain at gynnydd sydyn yng ngwariant manwerthu aelwydydd ar-lein, a chyflymu'r newid i wasanaethau clicio a chasglu; apiau siopa ar-lein; taliadau electronig, etc.***

Cyn dechrau'r pandemig, lansiodd Llywodraeth Cymru ei menter Canol y Dref yn Gyntaf, oedd yn awyddus i leoli gwasanaethau yng nghanol trefi lle bynnag roedd modd, i gefnogi eu hyfywedd a'u dichonoldeb, ac i annog mwy o fynediad iddynt. Yn fwy diweddar, bu ffocws ar gynyddu nifer y bobl sy'n gweithio gartref neu'n agos at eu cartref, a photensial defnyddio safleoedd yng nghanol trefi yn hybiau gwaith hyblyg.

**Oddi mewn i'r cyd-destun polisi ac economaidd hwn, bydd angen parhaus am fuddsoddi ym mhrif ganol trefi Castell-nedd Port Talbot, sef Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe, ac mewn canolfannau dosbarth llai, sef Sgiwen, Llansawel, Glyn-nedd a Thaibach trwy wneud y canlynol:**

- Denu mwy o amrywiaeth o ddefnyddiau;
- Gwella'r amgylchedd;
- Gwella hygyrchedd (e.e. Hwb Trafnidiaeth Port Talbot);
- Sicrhau defnyddiau amgen ar gyfer eiddo nad ydynt yn cael eu defnyddio;
- Denu buddsoddiad masnachol; a
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer perchnogaeth gymunedol ac arweinyddiaeth.

## PRYNU'N LLEOL



Mae'r pandemig a Brexit fel ei gilydd wedi annog cwmnïau i feithrin mwy o wydnwch yn eu cadwyni cyflenwi, ac mae mwy o gwmnïau bellach yn bwriadu cael hyd i gyflenwadau'n lleol a chadw mwy ar eu stocrestr.

## ANGHYDRADDOLDEB AC INCWM ISEL



*Er gwaethaf llwyddiant i gynyddu'r stoc cyffredinol o swyddi yn gyson, a chynyddu cyfraddau gweithgarwch economaidd, mae ymchwil ddiweddar yn dangos bod effaith a chwmpas gwaith am dâl isel (gan gynnwys hunangyflogaeth am dâl isel), a chostau cynyddol yn effeithio ar incwm gwirioneddol y rhai sy'n derbyn y tâl isaf yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nodir crynodiadau o anfantais yn ardaloedd trefol Port Talbot (Sandfields ac Aberafan), Llansawel a Chastell-nedd; ac ym mhen uchaf y Cymoedd, yn arbennig Cwm Afan o amgylch Croeserw. Ar ben hynny, mae nifer yr aelwydydd di-waith yn llawer uwch yng Nghastell-nedd Port Talbot (tua 21%) nag ym Mhrydain Fawr yn ei chrynswth.*

Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol yr angen am fesurau parhaus i gefnogi mynediad i gyflogaeth (trwy ddatblygu sgiliau ac yn y blaen), ond mae angen cydnabod bod y rhan fwyaf o aelwydydd sydd ar incwm isel eisoes mewn gwaith. O ganlyniad, mae ffocws ar fwy o gyfleoedd cyflogaeth a gynhelir "yn nes adre" yn debygol o fod yn allweddol ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

Hefyd, yn ystod y degawd sy'n dod, rhagwelir y bydd y boblogaeth oedran gwaith yng Nghastell-nedd Port Talbot yn statig (er bod 'capasiti' i ddod â mwy o bobl i'r farchnad lafur yng nghyswllt gweithio o bell), a disgwylir i gyfanswm twf cyflogaeth fod yn gymedrol; rhagwelir y bydd twf blynyddol cyflogaeth tua 0.3% hyd at 2027 ar gyfer De-orllewin a Chanolbarth Cymru.

## LLESIANT ECONOMAIDD YN CNPT...



### YSTYR LLESIANT ECONOMAIDD



FFACTORAU SY’N CYFRANNU AT YMATEBWYR YR AROLWG  
LLESIANT ECONOMAIDD YN CNPT

## ADBORTH DEWCH I SGWRSIO



## GWYBODAETH GEFNOGOL



### ATODIAD 1: DADANSODDIAD SWOT

Roedd y Sylfaen Leol o Dystiolaeth Economaidd a baratowyd i gefnogi'r Bennod Economaidd hon er mwyn ei chynnwys yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau Castell-nedd Port Talbot. Crynhoir hyn isod:

#### CRYFDERAU

- Cysylltedd ardderchog ar y ffordd a'r rheilffordd (yn arbennig yn ne CNPT) a seilwaith digidol cymharol dda.
- Sylfaen ddiwydiannol sefydledig ac unigryw a rhai cwmnïau gweithgynhyrchu mawr.
- Hanes da o gyflawni wrth symud ymlaen gyda gwaith adfywio pwysig a chynlluniau buddsoddi mewn busnes yng nghyd-destun dull gweithredu tymor hir.
- Tystiolaeth ddiweddar o wydnwch y farchnad lafur: segurdd economaidd yn gostwng, a llai o effaith yn sgîl Covid-19 nag mewn mannau eraill.
- Perthnasoedd economaidd cryf gyda chanolfannau cymdogol a hanes cadarnhaol o gydweithio â chymdogion.
- Agosrwydd a chysylltiadau da â chrynodeiadau o weithgaredd diwydiannol ar draws De Cymru.
- Agosrwydd at y 'sylfaen o wybodaeth' (campws Bae Abertawe yn CNPT ac ystod o asedau a rhaglenni prifysgol).

#### GWENDIDAU

- Oedi sylweddol yn sgiliau'r gweithlu...
- ...A adlewyrchir mewn cyflog a chynhyrchedd cymharol isel (ac yn y ddealltwriaeth bod cymudo i mewn i swyddi cyflog uwch a pheth cymudo allan i swyddi cyflog is).
- Bwlch gweithgaredd economaidd parhaus, er gwaethaf gwelliannau diweddar.
- Crynodeiadau anfantais ystyfnig.
- Diffyg cyfatebiaeth mewn rhai ardaloedd rhwng y capasiti am gyflogaeth ychwanegol a chyfleoedd economaidd (yn arbennig mewn rhannau o ben uchaf y Cymoedd), wedi'u cysylltu gan 'etifeddiaeth' barhaus o ddad-ddiwydiannu.
- Heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r sylfaen ddiwydiannol a'r sylfaen drafnidiaeth (er y gwelwyd gwelliannau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf).
- Sylfaen fusnes gymharol fychan, er gwaethaf presenoldeb rhai cwmnïau mawr.

## CYFLEOEDD

- Safleoedd strategol sydd ag arwyddocâd cenedlaethol (e.e. ym Mae Baglan) a photensial i'w datblygu dros amser.
- Capasiti ar gyfer datblygu, yn gysylltiedig â chysylltedd ardderchog a diddordeb masnachol.
- Twf bychan a ragwelir yn y boblogaeth 'oedran gwaith' (mewn cyferbyniad â gostyngiad ledled Cymru) a chynyddu cyfleoedd ar gyfer bywydau gwaith estynedig a mwy amrywiol.
- Potensial sylweddol i arwain yr ymgyrch i ddatgarboneiddio'r economi, trwy asedau presennol (e.e. y Ganolfan Hydrogen ym Maglan a'r capasiti o ran ynni adnewyddadwy) a chyfleoedd i arloesi a mabwysiadu oddi mewn i ddiwydiant.
- Cyfleoedd a gyflwynir gan newid arferion gwaith i ddenu defnyddiau newydd i ganol trefi a lleihau'r ddibyniaeth ar weithgareddau manwerthu traddodiadol.
- Potensial i archwilio dulliau newydd o ymdrin â datblygu economaidd a arweinir gan y gymuned, gan adeiladu ar ddefnydd mwy gweithredol o gaffael sector cyhoeddus lleol, twf busnesau bach yn yr economi sylfaenol, ac yn y blaen.
- Cyfleoedd i wireddu a gwella'r hyn sydd gan Gastell-nedd Port Talbot i'w gynnig o ran 'ansawdd bywyd', yn gysylltiedig â'i gysylltedd, yr amgylchedd gwledig a threftadaeth.
- Cyfleoedd i adeiladu ar y sylfaen o wybodaeth (a amlygwyd yn y Cryfderau uchod): mae llawer o Brifysgol Abertawe yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda photensial i greu cysylltiadau cryfach â diwydiant a rôl prifysgolion fel sbardunau economaidd eu hunain.

## BYGYTHIADAU

- Lefelau cymharol uchel o ddibyniaeth ar nifer cyfyngedig o ddiwydiannau allweddol. Mae'r ddibyniaeth hon wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae cwmnïau mawr yn dal yn fregus yn wyneb dadfuddsoddi a cheir ailstrwythuro o fewn diwydiannau o ganlyniad i newid byd-eang (cf. y newidiadau yn strwythur y sector moduron yn effeithio ar weithgareddau'n lleol), gyda goblygiadau o safbwynt yr amgylchedd a defnydd tir, yn ogystal â goblygiadau cyflogaeth.
- Natur fregus rhannau allweddol o'r sylfaen ddiwydiannol (yn amlwg y diwydiant dur, er bod hyn yn berthnasol i rannau eraill o'r economi hefyd) yn wyneb newid i dechnoleg a phwysau i ddatgarboneiddio. Mae hyn yn ymwneud yn rhannol â chostau newid, ond hefyd â sgiliau a chapasiti rheolwyr i gefnogi mabwysiadu ac addasu (a chysylltu hynny â risg colli sgiliau a galluoedd dros amser).
- Costau uchel cyflwyno rhai o brif safleoedd Castell-nedd Port Talbot: er bod y rhain yn cyflwyno cyfle (gan adeiladu ar yr hanes cryf a amlygwyd yn gynharach), mae perygl nad oes digon o fuddsoddiad cyhoeddus i alluogi/ddadrisgio gweithgaredd sector preifat.
- Heriau cysylltiedig â chipio 'gwerth ychwanegol' capasiti yng Nghastell-nedd Port Talbot (e.e., lle gellir datgysylltu Ymchwil a Datblygu diwydiannol oddi wrth y sylfaen ddiwydiannol; neu lle cymerir swyddi sgiliau uwch/cyflog uwch gan bobl sy'n cymudo i mewn o'r tu allan i'r fwrdeistref sirol.
- Ansicrwydd parhaus ynghylch buddsoddiad cyhoeddus wrth i ni bontio i ffwrdd oddi wrth gyllid Ewropeaidd (gyda pherygl cystadlu am adnoddau gyda rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, a'r angen am ddatblygu modelau buddsoddi newydd).



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS  
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

# ASESIAD LLESIANT



Y BENNOD ECONOMAIDD